

Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

Rhagfyr 1980

RHIF 73

NADOLIG TYWYLL

Eleni fe gollwyd 11,000 o swyddi yn y diwydiant dur yng Nghymru. Felly ni ddylid ystyried y rhybuddion ynghylch 'anhrefn gymdeithasol' fel addewidion gwag.

Mae polisïau'r llywodraeth hon yn difrodi'r drefn gymdeithasol yng Nghymru i'r un graddau ag a welwyd yn y dau-ddegau. Maent yn dinistrio'r diwydiant dur, y diwydiant glo yn ogystal â'r diwydiant cynhyrchu 'ysgafn'. Erbyn hyn, mae blaenoriaethau Thatcher ynghylch trethi a chyfraniadau yswiriant yn tanseilio'r cyflog cymdeithasol. Tra chynyddir y gwariant ar arfau niwcliar, amddiffyn, yr heddlu a'r lluoedd arfog, gostyngir yr arian a werir ar ysgolion, ysbytai, yr henoed, y methodig a thai.

Mae'r polisïau hyn yn ddi-feddlw ac yn arswydus ac yn effeithio'n ddychrynlyd ar drigolion De Morgannwg. Ers iddynt ddod i rym, mae'r llywodraeth hon wedi tocio gwariant cyhoeddus yn y meysydd cymdeithasol o ryw £4,000,000,000. O Ebrill 1981 ymlaen fe gwtogir eto ar gyllidebau'r tri awdurdod sy'n gwasanaethu'r cylch sef Cyngor De Morgannwg, Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Dinas Caerdydd. Cyfanswm cyllidebau'r tri awdurdod eleni oedd ychydig dros £100 miliwn. Bwriedir tocio cyllideb y flwyddyn nesaf o ryw £5-£6 miliwn.

Ar hyn o bryd mae cyfradd diweithdra De Morgannwg yn agosau at 12%. Eisoes mae'r dyn cyffredin yn gofyn y cwestiwn canlynol: 'Faint mae'n rhaid imi ddiodef tan wireddir proffwydoliaeth T.U.C. Cymru ynghylch 'anhrefn gymdeithasol'? Cellir dadlau efallai fod y ffaith fod 12% o'n gweithwyr ar y clwt yn achosi chwalfa gymdeithasol ar raddfa eang. Er hynny, rwy'n sicrhod T.U.C. Cymru yn ystyried ymgyrch gynhwysfawr os deil y llywodraeth i lyn u wrth ei pholisïau economaidd gwallgof.

Gallwn ddadansoddi tacteg y llywodraeth yn hawdd. Yn gyntaf, mae nhw'n gostwng gwariant cyhoeddus yn helaeth. Mae hyn yn

golygu llai o swyddi a llai o ddefnydd ('consumption'). Fel canlyniad, mae'r diwydiant cynhyrchu yn lleihau ei weithlu a'i gynnyrch. Yn y cyfamser, mae'r Toriaid yn sicrhau nad yw arian a benthyciadau ar gael yn rhwydd, h.y. drwy ddefnyddio'r ddyfais o gyfraddau llog uchel. Felly mae cyflogwyr yn gorfod benthycu arian ar gost uchel er mwyn cynhyrchu nwyddau difarchnad neu mae nhw'n cau i lawr. Trwy ostwng gwariant cyhoeddus yn barhaol (B.S.C. yw'r enghraifft glasurol), mae'r Toriaid yn creu cylch dieflig h.y. dim arian - dim prcasu - llai o gynhyrchu - llai o weithwyr heb arian ar gyfer prcasu...ac yn y blaen. Unwaith mae'r Toriaid yn rheoli'r cylch dieflig hwn, mae diweithdra'n cynyddu'n arswydus.

Yn ail, mae'r Toriaid yn creu ofn ymysg y gweithwyr drwy eu cyflyru i feddlw taw nhw fydd y rhai nesaf i golli eu swyddi. Gan obeithio cadw eu swyddi, mae undebwyr felly'n llai parod i amddiffyn eu safonau byw ac weithiau'n derbyn lleihad yn eu cyflogau. Ystyriwch weithwyr British Leyland. Derbyniasant godiad cyflog o 7% er i'r gost byw gynyddu o 17% ers eu codiad cyflog diwethaf. Pam, felly, y derbyniodd gweithwyr British Leyland leihad yn eu cyflogau? Mae'r ateb yn syml - roeddent yn ofni colli eu swyddi.

Yn drydydd, mae'r Toriaid yn dewis gelyn, ac yn awgrymu ein bod mewn perygl o gael ein 'gorchfygu'. Mae'r dacteg hon yn ymgais i droi ein sylw i ffordd a'n rhwystro rhag canolbwyntio ar y polisïau economaidd. Hefyd mae'n cyflawnhau byddin gref, heddlu cryf ac ataliad niwcliar cryf.

Byddai'n ddifyr gwylio tanciau Rwsia yn croesi Pont Hafren er mwyn 'gorchfygu' gwlad sy'n fethdalwr ac wedi ei hamddifadu'n gymdeithasol. Tywyll yw polisi'r llywodraeth. Dylid cofio'r ffaith hanesyddol hon. Tywalltwyd gwaed 25,000,000 o filwyr Rwsia wrth

iddynt 'sugno' ymosodiadau'r Almaenwyr yn yr Ail Ryfel Byd - er mwyn i Churchill gael cyfle i drechu'r Almaenwyr yn y pen draw. Hefyd, dylid cofio taw llywodraeth Prydain yw'r trefedigaethwyr mwyaf. Nhw sy'n euog o orchfygu hanner gwledydd y byd.

Pwrpas strategaeth y llywodraeth hon yw cloffi'r mudiad llafur yn barhaol. Mabwysiodd Hitler yr un polisi yn yr Almaen. Cyn i ddiweithdra gyrraedd ffigur o 5,000,000 neu 6,000,000 (fel y gwnaeth yn yr Almaen) dylid sicrhau cwmp y llywodraeth hon. Mae'r Toriaid wedi bod yn gweithredu'r strategaeth uchod ers deunaw mis. Ond er i aelodau seneddol, undebwyr a chynghorwyr leisio eu gwrthwynebiad yn gyfansoddiadol, ni chawsant ymateb derbyniol o gwbwl. Mae'r llywodraeth fel pe bai'n fyddar. Mae'n amlwg fod T.U.C. Cymru, Plaid Cymru a rhai aelodau seneddol Cymreig a Chymraeg wedi sylweddoli fod y llywodraeth hon wedi anwybyddu'r 'lobi democratiaid' yn llwyr. Felly credant taw'r unig ffordd i rwystro rhagor o ddirwasgiad economaidd a chymdeithasol yw trwy ddefnyddio dulliau protest anarferol ond effeithiol.

Ar raddfa leol, fe ddylem ddangos ein gwrthwynebiad i'r llywodraeth hon. Mae'n dibynnu ar ein hymateb. A wyt ti'n hidio am y Wladwriaeth Les a'r Gyfundrefn Addysg yr ymladdwyd amdanynt mor galed? A beth am y nifer fawr o bobl fethedig na fyddant yn mwynhau Nadolig Llawen eleni neu'r cymydog, gŵr, gwraig, neu blant a all fod ar y clwt? Wyt ti'n hidio am y plant heb ysgol feithrin neu arian i brynu llyfrau ysgol oherwydd y toriadau yn y gyllideb addysg?

Fe elli di wneud rhywbeth. Fe fydd rhai wedi protestio yn erbyn Thatcher ar Ragfyr llog. Ond gelli di ofalu am dy fywyd dy hun drwy ymlaen yn erbyn di-swyddo gormodol ('redundancies'),

PARHAD AR DUDALEN DAU

Fe gafodd y rhifyn diwethaf ymateb cymysg. 'O'n i ddim yn cytuno â'r erthygl flaen', meddai merch ifanc siaradus yn y 'Casablanca'. 'Hynod o ddiadorol', meddai academydd barfog ar y stryd. 'Ddim yn ffôl', meddai'r perchennog siop bapur. Ond digon rhydd yw trin a thrafod uwchben peint yn yr 'Halfway' neu uwchben coffi ym mharlymau moethus Cyncoed. Os yw'r papur hwn yn mynd i oroesi, rhaid trosi'r syniadau'n weithredoedd.

Mae'r posibilïadau'n ddiiddiwedd. Rwyf wedi derbyn lluo o awgrymiadau wrth gwrrd â hwn-a'r-llall. 'Beth am golofn yn portreadu cym eriadau lleol neu gyfosod cyfweiliad â pherson enwog â chyfweiliad â pherson llai adnabyddus?' 'Beth am fwy o farddoniaeth ysgafn?' 'Beth am dipyn o hanes lleol? Dysgais i ddim byd yn yr ysgol'. Ond sylw cymydog oedd yr un fwyaf treiddgar. 'Mae'r papur yn brin o hiwmor iach. Ti'n meddwl fod Cymry Cymraeg Caerdydd wedi colli'r ddawn i chwerthin - yn enwedig gwneud sbort am ben ei gilydd?'

'Dyn i ddim yn disgwyl i bawb ysgrifennu Cymraeg clasurol Saunders Lewisaid. Ond beth am roi cynnig arni ac ysgrifennu rhywbeth a all roi pleser iti a'r darllenwyr yn ogystal ag estyn einioes y papur hwn. Digon rhydd yw clebran. Mae parhad y 'Dinesydd' yn dibynnu os wyt ti'n codi beiro a threchu'r dudalen wag.

O DUDALEN UN

drwy wrthod cael dy erlid a thrwy wrthod ildio safon byw yr wyt wedi ymladd amdanê mor galed.

Os wyt ti'n amau'r geiriau hyn ac yn gwrthod sefyll yn erbyn y llywodraeth hon, paid â synnu os taw ti fydd nesaf i golli swydd. Ac os wyt ti'n chwilio am help, efallai na fydd neb i'th gynorthwyo oherwydd fod pawb arall yn ddi-waith, heb ddillad, gwres a bwyd. Erbyn hynny, fe fydd yn rhy hwyr.

Stuart Barber, Swyddog
Rhanbarth N.U.P.E.

158 Lake Rd. East,
Parc y Rhath,
Caerdydd.

Annwyl Gymdeithasau,

Diflas iawn yw ceisio llunio Calendr y 'Dinesydd' o fis i fis heb gefnogaeth Gymdeithasau Cymraeg Cylch y 'Dinesydd'. Ar hyn o bryd, nid yw un o Gymdeithasau'r ardal wedi anfon rhaglen ataf. 'Dwy ddim am dynnu nyth caewn am fy mhen ond ble mae'r manylion am gyfarfodydd Merched y Wawr, Y Cymrodorion, Clwb Cinio Merched Caerdydd? Os nad ydych yn barod i hysbysebu eich Cymdeithas, yna pwy ond y 'cylch cyfrin' sy'n gwybod am eich gweithgareddau?

Ar un adeg 'roedd Capeli Cymraeg y ddinas yn anfon eu rhaglenni o gyfarfodydd cymdeithasol at y 'Dinesydd'. Ond fe 'bwdodd' rhai ac fe gyhuddwyd y 'Dinesydd' o "beidio rhoi hanes pawb dim ond hanes rhai ..."

Felly, ga'i wneud un apêl arall ar i mi gael rhaglen flynyddol pob Cymdeithas, pob ysgol, pob capel - pob grŵp sy'n agored i'r cyhoedd.

A beth am i un aelod o bob grŵp anfon hanes y cyfarfod ar ôl iddo ddigwydd? Os na lwyddodd eich cyfarfod - wel dyma gyfle i chi ddweud hynny a rhoi pigiad i ambell gydwybod. Os ydych chi'n cael hwyl ar bethe, rhowch gyfle i bawb wybod fel y gall mwy o bobl rannu'r hwyl.

Dewch â'ch dyddiadau, a dewch â'ch hanesion.

Mallt Anderson.

80 Stryd Alfred,
Y Rhâth,
Caerdydd.

Annwyl Olygydd,

Llongyfarchiadau ar eich rhifyn cyntaf. Mae'n bosib taw'r 'Dinesydd' yw'r unig bapur bro yng Nghymru sy'n cael ei ddogsbartu'n rhad ac am ddim. Yn wyneb problemau ariannol y papur, pam na wneuch chi ystyried codi tâl?

Yn gywir,
G. Ifans.

Mae'n bleser gan drefnwyr gweithgareddau Cymraeg Theatr y Sherman gyhoeddi cystadleuaeth newydd sbon.

Ar y poster sy'n dwyn cyhoeddustrwydd i'r gweithgareddau, fe bortreadir nifer o Gymry adnabyddus a llai adnabyddus Caerdydd. Os fedrwch chi adnabod yr holl enwogion ar y poster, gallwch gystadlu.

Y wobr gyntaf fydd potel o chwisi Cymreig Swn y Mor, sydd wedi ei chyfrannu gan y Distyllwyr ('distillers').

Y cwbl sydd raid i chi ei wneud yw anfon rhestr o enwau'r bobl, sydd, yn eich barn chi, yn cael eu darlunio ar y poster ata i yn Yr Academi Gymreig, Llawr 4, Adeilad Cory, Heol Bute, Caerdydd. CF1 6QP.

Bydd pob ateb cywir (cynllunwyd y poster - Cen Williams - yw'r unig un cymwys i farnu cywirdeb yr atebion) yn cael ei roi mewn het; yr enw cyntaf i gael ei dynnu o'r het fydd yn ennill y chwisi.

Os digwydd i'r enillydd fod yn llwyr ymwrthodwr/ymwrthodwraig, bydd yn derbyn gwerth y botel mewn arian.

Anfonwch ar fyrder. Dyddiad cau - 28 Chwefror, 1981.

Ann Beynon.

Gan imi ruthro i'r Wasg mae lluniau'n brin yn y rhifyn hwn. Felly a fyddai trefnwyr digwyddiadau mor garedig a chysylltu â'n ffotograffydd, Gareth Jones, 143 Stryd Malefant, Y Waun Ddyfal, Caerdydd. Ei rif ffôn yw 374992.

Anfonwch eich deunydd at Martin Huws, Y Golygydd, 129 Heol Richmond, Y Rhâth, Caerdydd. Y dyddiad cau yw Ionawr 5ed.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

IAITH HEB DDYFODOL?

PARHAD AR DUDALEN TRI AR DDEG

Na, paid â throi i'r dudalen nesaf. Gwn cyn dechrau ar hyn o erthygl nad yw edrych i gyfeiriad y cyfandir yn debygol o ddyblu cylchrediad y papur teilwng hwn. Ar y llaw arall, nid drwg o beth fyddai inni fel Cymry daflu cipolwg amlach ar ddatblygiadau tramor gan gofio yn sgîl hynny nad problemau unigryw yw rhai Cymru. Dichon y gallai cam o'r fath roi hwb i'r galon o bryd i'w gilydd. Ac eto tywyll a disgysur yw'r darlun mewn ambell i le, ac fe sylweddolir yn fuan fod gennym le i ddiolch. Efallai mai ofer fydd yr ymdrech hon i ddianc o grafangau mewnplygrwydd gormesol, ond cei farnu hynny drosot dy hun.

Hawliodd yr athronydd Jean Paul Sartre fod siarad iaith leiafrifol yn weithred chwyldroadol ynddo'i hun. Pa ryfedd felly mai diogelu iaith, boed honno'n Catalaneg, Llydaweg neu Gymraeg yw prif sylfaen cenedlaetholdeb nifer fawr o bobl. Yn wir, yn eu golwg hwy, byddai'r frwydr am ryddid yn gwbl ddiystyr heb yr elfen honno. Ceir dadlau brwd o blaid hunan-lywodraeth, grym economaidd neu sosialaeth, ond canllawiau yw'r rhain wrth ymlwybro tuag at y prif nod sef diogelu iaith a diwylliant cynhenid y wlad. Yn yr ardaloedd hynny lle erys yn brif iaith i fwyafrif y boblogaeth gellir cymryd yn ganiataol fod llwybr cenedlaetholdeb wedi ymddangos yn bur ddeniadol i rai. Wedi'r cwbl sylweddolant, ymhen hir a hwyr, fod ffordd o fyw a'r iaith a rydd fynegiant iddi ar fin diflannu. Yr un bobl yn aml yw'r rhai hynny sy'n gweiddi'n groch am gyfiawnder ieithyddol ag a welir ar flaen y gad yn y mudiadau gwlatgarol. Tybiaf fod hyn yn wir, yn arbennig felly yng Ngwlad y Basg a Chymru, lle mae'r iaith yn bwnc pur ddadleuol. I raddau helaeth, digon tebyg yw'r sefyllfa yn Llydaw hefyd. Amlygir hyn mewn arwyddair cyfarwydd yno: 'hep brezhoneg, Breizh, ebet' ('heb Lydaweg, dim Llydaw').

Yn wyneb yr amryfal ddulliau a ddefnyddiwyd gan wladwriaeth Ffrainc yn ei hymgais i fygu'r iaith Lydaweg, diau y synnir rhai fod bron miliwn o bobl yn honni gwybodaeth o'r iaith. Nid yw agwedd Ffrainc wedi amrywio rhyw lawer ers 1831 pan bwysleisiodd un o swyddogion y llywodraeth ei bod 'yn gwbl hanfodol i ddinistri'r iaith Lydaweg' er budd y Llydawyr eu hunain. Gorfodwyd plant ysgol a gafwyd yn euog o siarad eu mamiaith i ysgrifennu'r frawddeg ganlynol

ar y bwrdd du: 'gwaherddir poeri a siarad Llydaweg'. Dyma'r math o sen a chreulondeb a chwistrellai ymdeimlad o israddoldeb i enaid y genedl.

Daeth tro ar fyd, fodd bynnag, o leiaf ar un agwedd. Cafwyd adfywiad llenyddol o bwys yn y blynyddoedd wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ceisiai lluo o awduron newydd drawsnewid yr iaith i fod yn gyfrwng modern ac addas i'r byd cyfoes. Ar drothwy'r Ail Ryfel Byd, sefydlwyd y mudiad Brezhoneg er Skol (Llydaweg yn yr ysgol) i wrthsefyll dylanwad niweidiol iaith y gormeswr. Cafwyd cryn gefnogaeth i amcanion y mudiad. Ond ym 1947, yn sgîl y camau erchyll a gymerwyd yn erbyn cenedlaetholwyr Llydaw, hysbyswyd dirprwaeth o'r Eisteddfod Cenedlaethol na fyddai'r Gweinidog Addysg ym Mharis yn barod i ystyried dyegu Llydaweg yn yr ysgolion ar unrhyw gyfrif. Roedd un iaith yn ddigon da i holl ddinasyddion Ffrainc!

Yn ystod yr ugain mlynedd nesaf gwelwyd dirywiad enbyd yn nhynged yr iaith. Ym 1970 cafodd Llydaweg ei lle fel pwnc dewis ar gyfer y 'baccalaureat' (lefel A) am y tro cyntaf. Yr adeg honno, 0.6% o blant ysgolion cynradd yn unig oedd yn astudio'r iaith. Ers hynny bu mudiadau di-ri yn ymgyrchu'n ddifflino i newid agwedd styfnig Ffrainc. Ceir galwadau blynyddol gan Gyngor Economaidd a Chymdeithasol Llydaw am wir gydnabyddiaeth a chyfiawnder yn y maes hwn. Yn amlach na pheidio, ni cheir ateb o unrhyw fath gan y wladwriaeth. Cwynodd Per Denez, Athro Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Rennes, mewn anobaith ym Mawrth 1975: 'Mae mur o ddistawrwydd yn ein hwynebu. A oes rhaid defnyddio dulliau'r FLB er mwyn tynnu sylw?' (FLB yw Byddin Rhyddid Llydaw). Dychwelodd y Gweinidog Addysg o Louisiana ym 1976 yn canmol dwy-ieithrwydd i'r cymylau. Llygedyn o obaith efallai? Na, rhaid cofio fod y sefyllfa'n dra gwahanol pan fo'r iaith ranbarthol hefyd yn iaith gydnabyddedig ei chyfoeth a'i chymwysder i'r byd modern, megis chymhwyswyrangeg yng Nghanada, yng ngwlad Belg, yn Louisiana neu yn y Swisdir. Ni ellir cymharu'r Ffrangeg â iaith a siaredir mewn un rhan fechan o'r wlad yn unig. Wele resymeg disglair cenedlaetholwr Ffrengig â'i fryd ar atal y llif Seisnig. Rhaid imi gofnodi yn y fan hon ddyfyniad bendigedig o eiddo ceidwadwr o Lydaw, yn y papur dyddiol 'Le

Monde': 'nid yw'r iaith Lydaweg yn bodoli gan nad oes iddi ramadeg'. Y fath ysgolheictod!

Addysg a theledu wrth gwrs yw prif arfau'r llywodraeth wrth geisio sarnu ar yr iaith. Amlygir dylanwad y ddau ar aelwydydd ledled Llydaw lle mae'r rhieni'n mynnu siarad Ffrangeg â'r plant tra'n fodlon sgwsio'n Llydaweg â chyfeillion neu gymdogion. Yn ddiweddar cynhaliodd y cylchgrawn 'Breiz' holiadur ymhlith 457 o blant yn nhref Scaer, Finistere. Credaf fod yr ystadegau sy'n dilyn o ddi-ddordeb i ninnau hefyd.

Ateb
cadarnhaol

Ydych chi'n siarad Llydaweg?	39.7%
Ydych chi'n deall Llydaweg?	73.9%
Hoffech chi allu darllen Llydaweg?	50.8%
Ydy eich rhieni'n siarad Llydaweg â'i gilydd?	62.2%
Ydyn nhw'n siarad Llydaweg â chi?	47.4%
Ydych chi'n siarad Llydaweg yn ystod yr awr ginio?	6.5%
A ydy eich athrawon yn eich cymell i siarad Llydaweg?	8.0%
A gawsoch chi eich cosbi erioed am siarad Llydaweg?	3.8%
A yw eich rhieni o blant yr iaith	4.4%
Yn erbyn	23.1%
A yw'r Llydaweg yn iaith fel unrhyw iaith arall?	82.2%

Yn ddi-os, mae'r dystiolaeth uchod yn dangos newid agwedd er gwell. Ond mae 'na arwyddion o ddirywiad cyson yn sefyllfa'r iaith, hyd yn oed yn yr ardaloedd cadarnaf. Caiff y mewnlifiad cynyddol o ymwelwyr effaith andwyol dros ben yn enwedig gan na all y trigolion lleol gystadlu yn y farchnad tai a chyfoethogion ar fin ymddeol. Heddiw, mae mudiadau tebyg i 'Diwan' (Hedyn) yn dysgu drwy astudio sefyllfa Cymru. Sefydlwyd dwy ysgol feithrin newydd yn Kemper a Brest yn dilyn llwyddiant cymharol ysgol Plonger-neau. Yno caiff y plant elwa ar y posibilrwydd o gyfathrebu â hynasgwyr lleol yn eu mamiaith.

Rhyw chwarter awr bob pythefnos a geir ar y teledu yn yr iaith Lydaweg a rhywbeth yn debyg yn ddyddiol ar y radio. Allwch chi gredu mewn difrif calon fod hyd yn oed y dogm pitw hwn yn cael ei ddisodli gan yr iaith Almaeneg o bryd i'w gilydd yn misoedd yr haf - fel rhan o ddarpariaeth hael y cyfryngau ar gyfer ymwelwyr.

Y DYN DŴAD

Wnei di sôn ychydig am dy gefndir?

Cesh i ngeni yn C & A Bangor yn 1958 pan nath Bolton guro Man U yn y cyp ffeinal. Nath yr hen fod 'y ngalw fi ar ôl Goronwy Roberts, M.P., achos bod o wedi ffendio job i'r hen go ar Crossville pan gafodd o sac o chwarael Llanber. 'Labour' oedd dre i gyd ers talwm tan i'r Blaid Bach ddwâd rownd sgubs un diwrnod pan o'n i'n llai a throi pawb atyn nhw efo 'badges' a sticers a caneuon Dafydd Iwan a ballu. Blaid Bach 'di Mafia dre bellach. Gei di ddim byd os wyt ti ddim yn Wigli. Ydi hynna'n ddigon?

Beth yw'r rheswm am dy gasineb at fyfyrwyr?

Fysan nhw ddim yn rhoid'u c ..u i chdi, dyna pam. Dwi 'di rhoid menthyg mags i ddwsina ohonyn nhw. Pa fags fydda i'n gal pan fydda i'n gofyn amdano fo'n dól? Gobaith mul mewn Derby sgin ti o gal niwcan goch o din yr un ohonyn nhw. Oes arna chdi rwbath i fi? O'n i'n siarad hefo'r dyn tacsî 'ma noson o'r blaen. Wedi stwffio chwech stiwdant mewn tacsî i'r 'Casablanca' medda fo. Dim ond pedwar sy' fod ond gneud ffafr efo nhw,ia? Wyt ti'n meddwl gafodd o sentan gynnyn nhw am 'i draffarth. Ff. c o beryg. 'Short arms, long pockets, dem tight-arsed North Walians, all de same'. 'Ddim pawb, dyn du,' medda fi a rhoid chweig o dip iddo fo er mwyn cadw enw da'r Gogledd.

Ond heb fyfyrwyr fuasai 'na fawr o lewyrch ar fywyd tafarnol Caerdydd.

Nhw sy'n sboillio fo tasa chdi'n gofyn i fi. Ar y cychwyn, roeddwn i a'r hogia'n cael nosweithia bach digon hwyliog yn yr 'Halfway' ond be' ti'n feddwl sy'n digwydd rŵan? Blydi stiwdants uffar a'r snobs T.V. 'ma yn llenwi'r lle fatha tun o 'sardines'....

Pam felly wnest ti gyfrannu at bapur y Coleg?

Do, rosh i bejan i 'Ar Daf' am y ffordd nath Bel a fi gwarfod yn 'Le Mans' Dydd Gŵyl Dewi. Dim ond achos bod y 'Dinesydd' 'na wedi banio fi hefyd, cofia. Does gin i ddim byd i ddeud wrth stiwdants a fyswn i ddim yn codi bys bach i helpu dim un ohonyn nhw ar wahân i Frogit y stiwdant clên a dydi hwnnw ddim yn

PEDWAR

stiwdant bellach chwaith. Blydi arcitect ydi o rŵan. Ti'n nabod o? Iesu, mo 'di newid.

Faint o wirionedd oedd yn straeon

'Y Dyn DŴad'?

Os na 'dyn nhw'n wir, ia, sut fyswn i'n medru 'u sgwennu nhw? Yndyn, siwr Dduw, ma' pob un wan jac yn wir. Be fysa Denzil Penniman a Connolly yn ddeud, heb sôn am 'i neud i chdi, os bysa chdi'n deud clwydda amdany'n nhw? Y?

Ond fe greaist ti helynt gyda'r capeli a phobl ddylanwadol y ddinas? Oedd hyn yn peri loes iti?

Dwi ddim yn siwr iawn bod fi'n dallt be' sgin ti rŵan 'de co, ond dwi'n meddwl ella ma' hyn. Ti'n cega mod i'n pechu erbyn penna bach a phobol fawr Caerdydd? O.K. Hyn dwi'n ddeud, ia. Pam ma' pobol fawr yn controlio bob dim? Ma' nhw'n controlio'r 'Dinesydd'. A dyna i chdi bapur uffernol o 'boring' ydi hwnnw. Ma' nhw'n controlio llyfra Cymraeg, a welist ti 'riced rwbath mwy sych grimyn na rheiny, ddyn bach?

Ddeuda i wrtha chdi hyn, ia. Ma' na bobl yn dre 'cw sy' wedi darllan llyfr Cymraeg am y tro cynta yn 'u bywyd ar ôl i lyfr yr hog ddwâd allan. Prynodd yr hen fod fo a'i fenthyg o i Leisa Parry Gas No. 10. Ath gŵr honno â fo i Ferodo a rhoid i fenthyg o i ryw foi o Felinheli. Y diwedd-ara ydi bod o'n mynd o gwmpas ffatri sosej Roberts, Portdinorwig ac yn rhoid laff iawn i'r hogia'n fannu uwchben te deg. Ma' copi Sam Cei'r Abar yn dipia jest, gymaint o bobol fuo'n 'i fodio fo ac mae o ar goll rywle yn Bethesda ar hyn o bryd.

Os ti ishio i'r hogia ddarllen Cymraeg, sgwenna rwbath ma' nhw'n ddallt am bobol go iawn ddim ryw falu c ..u uffar.

Un peth sy'n ddriswch imi, Gronw, yw'r modd y daeth yr erthyglau'n llyfr.

Paid a 'ngalw fi Gronw, 'nei di? Enw hyll. Fel hyn o'dd hi. Brôc yn y 'Casino' un nos Sadwrn. Gwydyr gwag o 'mlaen. O'dd gin i bris peint o 'Brains' ond ti'n gwbod y ffortiwn ti angan i brynu hanner yn y 'Casino'. Dyma'r boi 'ma o Groeslon draw ata fi a chynnig peint. 'Dallt bod chdi'n sgwennu straeon budur', medda fo. 'Straeon gwir', medda fi. Meddwl

bod o'n bowld braidd. Erbyn gweld, dyn gneud llyfra odd y boi Mei 'ma a dyma fo'n gofyn imi fyswn i'n licio gneud un. 'Fedra i ddim fforddio talu i chdi', medda fi'n dechra. Gweld ma' rhyw fath o 'salesman' o'dd hwn wedi prynu lysh im i er mwyn trio hwrjio'i lyfra i fi. 'Y ni fydd yn talu i chdi, siwr Dduw', medda fynta. A dyma fi'n dechra sylweddoli bod y Mei ma'n foi da ar y diawl.

Wel, Goronwy, mae hi wedi dod yn amser cau pen y mwdwl unwaith yn rhagor, rhoi'r ffidil yn y to, dod i ben y dalar ac i derfyn y rhawd. Oes 'na unrhyw bwynt y carech chi ei wneud cyn cloi?

Fyswn ni'n licio rhoid rhybudd i bawb bod 'Dyddiadur Dyn DŴad' jest iawn allan o brint. Dim ond deg niwc ydw i'n gal am bob un. Felly ma' gofyn cal gwarad a bedwar llyfr cyn gwneud pres peint. Felly gwnewch yn siwr o'ch copi rŵan hyn.



Goronwy Jones

Profiad Ysbrydol

Y CALENR

Yr un fath â miloedd ar filoedd o bobl led-led y byd, fe gafodd nifer dda o drigolion Caerdydd y cyfle o ymweld ag Oberammergau eleni i wyllo drama'r Dioddefaint. A bod yn onest, alla'i ddim dweud fy mod i wedi dyheu am flynyddoedd y cawn fynd yno rywbryd, na wedi 'difaru i mi fethu mynd yn 1950 neu 1960 neu 1970, ond pan ddaeth y cyfle eleni fe'i derbyniais yn llawen.

Gyda'r bws yr aeth ein parti ni bob cam i Oberammergau - ac yna ymlaen i Fiena a Salzburg cyn troi am adre drwy Nürnberg a Köln. Fe wyddwn i cyn mynd na fyddwn yn mwynhau byw allan o fag dillad am dros wythnos, gan aros mewn gwesty gwahanol bron bob nos ond fe wyddwn hefyd y byddwn yn mwynhau cwmni gweddill y parti, a nifer ohonom wedi bod yn Israel gyda'n gilydd y llynedd.

I mi, ac i'r mwyafrif o'm cyfeillion, 'roedd y profiad o weld y ddrama'n werth y daith hir. Yn wir, 'roedd hi'n werth gweld Oberammergau a'r pentre cyfagos Unterammergau - fel Upper a Lower Cwmwrch, medde rhywun! Ond aeth y gymhariaeth ddim pellach na'r enwau: 'roedd y ddau bentre - a lleoedd eraill a welsom ar y daith - yn orlawn o flodau lliwgar, mynawyd y bugail gan mwyafrif, a'r trigolion yn awyddus i groesawu ymwelwyr o bedwar ban y byd.

Dyma'r ail dro ar bymtheg ar hugain i drigolion Oberammergau lwyfannu drama'r Dioddefaint. Mae stori'r cefndir yn gyfarwydd bellach: yn 1632 a 1633 fe gipiodd y pla du lawer o drigolion y plwyf, ac ym mis Hydref 1633 gwnaeth arweinwyr y bobl addewid y bydden nhw'n perfformio Dioddefaint Crist bob deng mlynedd pe bai'r pla'n diflannu. Felly y bu: gwelwyd y perfformiad cyntaf yn 1634, ac o 1680 ymlaen llwyfannwyd y ddrama bob deng mlynedd, gydag ychydig eithriadau.

Trigolion Oberammergau yw'r perfformwyr - yr actorion, y côr o 48 o gantorion, yr unawdwyr, y gerddorfa o 65 a'r lluo gynorthwywyr y tu ôl i'r llenni. I mi 'roedd y cyfan yn wyrth. Mae'n wir fod gan bob cwmni ddeng mlynedd i baratoi ac i ymarfer, ond mae eto'n wyrth fod pentre o'r maint yma - tua phum mil o eneidiau - yn medru llwyddo i gyflwyno cynhyrchiad

sydd mor ddisgybledig ac mor broffesiynol. Yn Almaeneg y cyflwynir y cyfan, wrth gwrs, ond mae trosiadau o'r sgrïpt ar gael, yn Saesneg ac mewn sawl iaith arall, i bwy bynnag sydd am ddilyn y stori'n fanwl. Mae'n werth paratoi rhywfaint ymlaen llaw, os mai dim ond er mwyn deall y "tableaux vivants" - y golygfeydd byw - a gymerwyd o'r Hen Destament i ddarlunio agweddau o stori Dioddefaint Crist. Er enghraifft, ynghlwm wrth hanes Jwdas Iscariot yn bradychu'r Iesu â chusan ceir golygfa o Ail Lyfr Samuel, pennod 20, sy'n sôn am Joab yn "ymaflyd ym marf Amasa i'w gusanu ef" ond yn ei drywanu â chleddyf "dan y bumed ais" ac yn ei ladd. Yn nes ymlaen cyffelybir tristwch ac anobaith Jwdas â hanes Cain yn Llyfr Genesis yn cael ei boenydio gan ei gydwybod ac yn crwydro wyneb y ddaear.

I mi 'roedd y cyfan yn wych - yr actio, y canu, y gerddoriaeth - popeth yn fwy cofiadwy nag oeddwn i wedi disgwyl ei gael. Oedd e'n profiad ysbrydol? Yn sicr ddigon, ydoedd i mi. Profiad gwahanol i grwydro gwlad Israel a gweld y mannau lle bu Ef - ond yn profiad, er hynny, ac mae'n anodd i mi ddeall sut y gallai neb eistedd drwy'r cyflwyniad hwn o hanes y Dioddefaint heb gael ei gyffroi.

Fe fyddwn i'n annog pawb sydd heb gael y fraint a gawsom ni i geisio mynd i Oberammergau ar y cyfle cyntaf. Bydd miloedd yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn, i weld y man lle cyflwynir y ddrama, ac i sbïo ar y gwisgoedd a ddefnyddir - ac i ryfeddu at harddwch y pentrefi yn flodau i gyd. A heb fod nepell i ffwrdd mae canolfan sgïo Garmisch Patenkirchen. Ond ni fydd yn rhaid i neb aros am ddeng mlynedd i weld y ddrama: yn 1984 bydd perfformiadau arbennig i ddathlu penblwydd 350 y perfformiad cyntaf yn 1634. Felly, os na allwch aros tan 1990, beth am drefnu i fynd yn 1984? Mae'n siwr y cewch yr un croeso ag a gawsom ni.

Diolch i drigolion Oberammergau am eu trefniadau rhagorol, ac am adael i ni fwynhau profiad a crys yn hir yn fy nghof i gyda chymorth casét y gerddoriaeth a'r gyfres o dryloywderau a gludais oddi yno.

D. Gwyn Jones

Rhagfyr 17: Gŵyl Nadolig Ysgol Rhyddfelen yn Neuadd yr Ysgol.

Rhagfyr 18: Cyfarfod Cyhoeddus yn y Four Elms, Elm St., Y Rhâth. Gareth Miles: 'James Connolly - Gweriniaethwr a Sosialydd'. 8 p.m.

Rhagfyr 19: Noson Weriniaethol. Bar Seler, yn y Great Western, 8 p.m.

Rhagfyr 19 - Mai 31: Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru, Heol Bute, Caerdydd. Darlunir hanes cymoedd y Rhondda o'r cyfnod cyn-ddiwydiannol tan ein dyddiau ni. Arddangosfa.

Rhagfyr 19: Noson i'r Dysgwyr - Disco, Twmpath Dawns a Chabaret. 8.00 - 12.30 a.m. Bar tan hanner nos. Undeb y Myfyrwyr, Politechnig Cymru, Trefforest. Tocynnau (£1) ar gael oddi wrth J.A.Evans, 6 Ridgeway, Llysfaen. Ffôn: 754539. Elw at Ganolfan Iaith Nantgwyntheyrn.

Rhagfyr 21: Ysgol Feithrin Llysfaen - Cân y Nadolig yn Eglwys Dewi Sant am 8 o'r gloch. Os am docynnau ffoniwch 754559.

Rhagfyr 22: Eglwys Dewi Sant Caerdydd am 1.05 p.m. Datganiad organ gan Phillip Laugharne o gerddoriaeth y Nadolig.

Rhagfyr 23: Eglwys Dewi Sant. 1.05 p.m. Philip Thomas ar yr organ gyda datganiad o gerddoriaeth y Nadolig.

Rhagfyr 24: Heol y Crwys. 10.30 p.m. Cyfarfod y Plygain i groesawu Dydd Nadolig.

Ionawr 3: Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru, Heol Bute, Caerdydd. Cynhelir dyddiau agored ar y Sadwrn cyntaf o bob mis. Gyrrir y peiriannau mawr gan ager a cheir cyfle i ymweld ag adran y cerbydau nad yw'n agored i'r cyhoedd fel rheol a mynd ar fwrdd y tynfad 'Sea Alarm'. Dangosir nifer o ffilmiau sy'n ymwneud â pheiriannau ager a cherbydau drwy gydol y dydd yn orielau'r Amgueddfa.

Ionawr 5: Nos Ystwyll, Heol y Crwys. Noson o hwyl addas i'r tymor. Tocynnau £1.50.

Ionawr 5: Merched y Wawr.

Mr. Vincent Phillips - 'Tafodieithoedd'. Ffestri Capel Minny Street, Cathays. 7.30 p.m.

Ionawr 8: Clwb Gweriniaethol Caerdydd, Tafarn y FOUR ELMS, Elm St. Y Rhâth. 7.30 p.m.

Pwy sy isio clywed?

CYDYMDEIMLAD

"Rhywbeth i'r 'Dinesydd'? Erbyn dydd Iau?"

"Ond - "

Ond - mae'r golygydd yn hen ffrind ac mae wedi addo dod i godi'r hen lein ddillad rotari rydlyd yng ngardd fy nhŷ newydd. Swell peidio â dweud 'Na' ar ei ben.

"Ond dwi'n mynd i Awstria gyda Merched y Wawr".

"Sgwennwch am Awstria, te".

Rargian. Ymuno â'r criw sy'n pasio 'snaps' gwyliau o un llaw ddiflas i'r llall? Coffa drwg am sgwrs pum munud yn Ffestri Bethel ar fy nghwyliau. Na ato Duw!

Wel, beth ynte? Problemau parcio Caerdydd? Atgofion am y tram olaf? Lle'r ferch yn y gymdeithas ddwyieithog? Dydw i ddim yn meddwl rywsut...

Mae hi'n braf i fod yn ôl yng Nghaerdydd unwaith eto. Gwir fod papurau 'crisps', mwy nag arfer, wedi chwythu i mewn i'r ardd, ac yn glynu'n gariadus wrth y drws ffrynt. Mae'n amlwg, hefyd, i orymdaith cŵn gael ei chynnal rhwng fan 'ma â phentref Llandâf tra bŵm i ffwrdd. Ac mae hi'n stido bwrw. 'Roedd hi'n bwrw glaw yn Awstria hefyd ond rywsut 'doeddwn i ddim yn gwlychu cymaint, nac oeddwn? Ac er ei bod hi'n anarferol o oer, 'roedd hi'n sych a'r eira cynnar yn bictiwr.

Cnoc ar y drws. "Pwy sy 'na? O, Mair, helo. Wedi bod yn treio 'nghael i ar y ffôn drwy'r bore? Dario, mae'r gloch wedi methu eto. Dim ond wythnos cyn mynd i ffwrdd y trwsaiwyd y peth. Dyna lôn oedd y cabanau teleffon yn St. Wolfgang, ynte? Fel pin mewn papur. 'Chest ti ddim trafferth i ffonio'r teulu yng Nghaerdydd ar unwaith, naddo?"

"Pobol brysur oedden nhw'r Awstriaidd, ynte? Dim ond un set deledu weles i, a honno ryw ddeuddeg modfedd ar draws wedi ei gosod o'r neilltu braidd yn y lolla. 'Nemor ddim diweithdra, meddai'r ferch."

"Wythnos i heno 'roedden ni'n mwynhau ein hunain yn y Noson Dyroleaidd, on'd oedden ni? Wyt ti'n cofio'r ferch ifanc 'na'n iodlo a chwerthin iach y ferch hŷn? A'r dynion cydnerth yn neidio i'r awyr ac yn clecio'u

cluniau fel ergydion gwn. Llygaid Merched y Wawr yn pefrio."

"Na, doedd dim sôn am gitâr, na thri chord didostur ein cantorion pop ni. Rhyfedd fel 'roedd pawb yn gallu mwynhau hwyl gynhenid y wlad er nad oedden ni'n deall fawr ddim, ynte?"

Cynrychiolwyr o ryw bymtheg o wledydd yn y neuadd, a'r criw ar y llwyfan yn canu cân bob un i ni yn ein hiaith ein hunain. Wel, bron...

Duwcs, roedd 'na gwnwrf ar ein bwrdd ni pan ganwyd 'Tipperary' a phawb yn edrych i'n cyfeiriad ni, a Jac yr Undeb yn cael ei chwifio o dan ein trwynau ni. 'Roedd anrhydedd pob Cymraes yn y fantol. Sibrwd ymysg ein gilydd. "Be wnawn ni? Be ganwn ni ar ôl i bob cân gael ei chanu?" Codi ar ein traed a chanu 'Hen Wlad fy Nhadau'?

Ond chwarae teg i'w calonne nhw. 'Roedd popeth yn olreit wedi'r cwbl. Ar ôl i'r ferch ganu cân mewn Siapanaeg, wele'r hen Ddraig Goch yn cyhwan, a ninnau'n cael ein cân arbennig ni. Merched y Wawr ar eu traed yn curo dwylo a'r dorf i gyd yn canu.... 'We'll keep a 'welcome'....

"Na, Mair, alla' i ddim dod draw i gael coffi bore fory. Rhaid i mi sgwennu rhywbeth i'r 'Dinesydd'. 'Sgwennwch am Awstria', meddai'r golygydd. Ond pwy sy isio clywed hanes gwyliau rhywun arall?"

MARION EVANS

DARLITH RADIO FLYNYDDOL Y B.B.C.

Eleni D. Tecwyn Lloyd draddododd y ddarlith. Ei destun oedd 'Newyddiaduraeth yng Nghymru'. Cafwyd darlith rymus a diddorol. Pan fo'r 'Dinesydd' yn dioddef o ddifrawder ei ddarllenwyr, gobeithio i gydwybod pawb gael ei bigo wrth i Tecwyn Lloyd dalu teyrnged i'r 'Dinesydd' am arloesi a sefydlu'r 'Papur Bro' cynta yng Nghymru. Hefyd talodd deyrnged i'r 'Dinesydd' gan mai'r 'Dinesydd Dyddiol' yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ydy'r unig bapur dyddiol Cymraeg i ymddangos erioed yng Nghymru. Dow da chi - cefnogwch eich papur!

Cydymdeimlwn yn fawr â Mr. Gwilym Rees, King George Vth Drive, ar golli'i wraig hoff. Bu'n dost iawn am flynyddoedd ond doedd dim pall ar ei sirioldeb nac ar ofal mawr a di-flino ei gŵr amdani adeg pob triniaeth gas.

Ysgrifennydd poblogaidd Heol y Crwys yw Mr. Gwilym Rees a llawer ohonom yn ei goffio'n cadw'r Post ar Sarn Fid Poel cyn i'r ffyrdd newydd newid daearyddiaeth yr ardal. Roedd pawb ohonom mor falch mai Cymro glân gloyw oedd y gŵr bonheddig a arhosai amdanom ochor draw i'r drws.

Roedd Gwyn ac Eluned ymhlith deunaw disgobl cyntaf Ysgol Gymraeg Caerdydd ac mae'r ffaith hon yn tystio llawer i argyhoeddiadau a menter Mr. a Mrs. Rees. Cydymdeimlwn yn fawr ag of a chydwr Eluned a Gwyn yn eu galar.

Cydymdeimlwn â sweddill y teulu, sy hefyd yn byw yng Nghaerdydd, yn eu hiraeth am Mrs. Megan Rees. Mae chwaer Mr. Rees, mam Elisabeth a Rhys Williams, wedi symud yn ôl i Gaerdydd i fyw ac rydym yn gwybod y byddant i gyd yn gefn i'w gilydd ar adeg trist fel hwn.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs. Aneirin Lewis ar golli'i mam ar Dachwedd 9fed. Gwraig Dr. Aneirin Lewis, darlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol a Diacon yng Nghapel Ebeneser yw Mrs. Lewis. Ni fyddai neb yn credu heddiw mai o deulu di-Gymraeg yng Nghaerdydd yr hana'i Mrs. Lewis. Roedd mam a thad Mrs. Mary Lewis yn gefn i'w merch yn ei hymdrech i adennill ei hiaith yn Ysgol Hywel, Llandaf ac wedyn yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Roeddynt yn gymaint o gefn iddi fel yr en illodd radd anrhydedd yn y Gymraeg. Ychydig iawn y tu allan i'r ddinas sy'n deall cymaint o fariad at Gymru sy gan rai o'r di-Gymraeg yng Nghaerdydd. Canlyniad naturiol i hyn oedd iddi godi'i theulu yn Gymru Cymraeg ac adennill tir i Gymru yng ngwir ystyr y gair.

Bu'i gofal dros ei mam yn fawr iawn dros nifer o flynyddoedd a chydymdeimlwn yn fawr â hi a'i gŵr ac â'r wyrion adeg eu colled. Mae Geraint yn darlithio mewn cerddoriaeth yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, a Gwenda'n fyfyrwraig.

YNG NGOFAL ARFON

Os tenau oedd y cystadlaethau llwyfan yn Eisteddfod Caerdydd ar ddechrau'r mis cafwyd eitha' hwyl ar y cystadlaethau barddoni, ac roedd Islwyn Jones yn eisteddfod ynddo'i hun wrth eu beirniadu. Wrth reswm ni chafwyd cynifer yn ceisio'r gadair ag a gaed yn treio'u llaw ar linell goll i'r limerig, ond cerdd y gadair sy'n cael y lle blaenaf yn y golofn y tro hwn. Gofynwyd am Gerdd Foliant, caeth neu rydd, tua 30 llinell o hyd, i unrhyw berson neu le yn Ne Morgannwg a chafwyd pedwar cynnig. Roedd un ymgeisydd wedi datgan ei edmygedd o'r Barnwr Dewi Watkin Powell ar fesur yr Archfardd o Fôn, un arall wedi gweithio cywydd i W.C. Elvet Thomas, ac un arall eto wedi canu cyfres o dribannau cynganeddol yn clodfori Rhiwbeina. Ond "Bazaroff" aeth â hi gyda'r deyrnged hyfryd hon ar y wers rydd i'w fam-gu.

Mam-gu

Arglwyddes fwyn, beth yw dy swyn?
Un bore
gosodaist yn dyner
draed bregus y Cymro bach
ar balmant
llithrig
Cymreictod
a'u llywio'n saff.

Ac yng ngheroddediad y blynyddoedd
rhoddaist faeth y wlad
i'r crwt dinesig,
y crwt a chwiliat am angor
mewn môr o goncrid.

Arglwyddes fwyn, beth yw dy swyn?
Fel trôell
fe nyddiaist dy straeon
a'u dwbl weu
yn garthen gynnes
o'm cwmpas
rhag cylllell yr oerfel estron.

A dawnsiai dy dafodiaith
ar lwyfan fy meddwl
nes imi dwymo ati
ac ysu
am ddynwared
curiad y sillafau.

Bregus wyt yn awr
dan bwn y blynyddoedd
ond gwn y daw un o leiaf
i droi merddwr dy lygaid
yn fwrlwm merch.

A phwy yw "Bazaroff" meddech chwi? Neb llai na golygydd newydd Y Dinesydd, Martin Huws. Llonyfarchion calonnog iddo ar ei gamp.

Nid oedd Islwyn yn fodlon ar y telynegion a gafwyd ac ataliodd y wobr, ond beth am yr englynion? Gosodwyd dewis rhwng dau destun, 'Drych' a 'Rhwd' ac roedd hynny'n gwneud tasg y beirniad yn anos. Dyma ddetholiad:

Drych

Atyniad ac otano - eirian baent
Arian byw'n disgleirio;
O edrych i'w lewych o
Hwnnw'i lun a wêl yno.

Drych

Wedi edrych daw dadrith darganfod
Ar y gynfas felltith
Ond twyllodrus baent lledrith;
Llun ni cheir ond llun o chwith.

LEICECS (O'R BALA)

Defnyddiau

- *Pedair owns o flawd
- *Tair owns o siwgr
- *Ychydig o halen
- *Un wŷ
- *Llefrith (neu laeth enwyn)

Dull

Dodwch y defnyddiau sych mewn dysgl. Curwch yr wŷ. Tywelltwech y llefrith arno. Ffurfiwch bant yng nghanol y defnyddiau sych. Tywelltwech y llefrith yn araf gan guro'r defnyddiau sych yn raddol oni cheir cymysgedd nad yw'n rhy wlyb.

Cynheswch radell ymlaen llaw. Iwch hi'n dda. Codwch y cymysgedd arni fesul llond llwy bwdin. Gadewch i'r leicecs grasu oni chwyd "swigod" bach ar eu hwyneb. Yna trowch hwy â chyllell er mwyn crasu'r ochr arall. Codwch hwy ar blât neu ddysgl.

CAWL MAMGU TREGARON

Defnyddiau

- *Pwys a hanner o gig moch
- *Pwys o gig eidion crimog
- *Un fresychen wen
- *Hanner pwys o foron
- *Ychydig o geirch
- *Hanner meipen
- *Pwys o datws
- *Hanner pwys o bannas
- *Un genhinen fawr

Dull

Torrwch y llyisiau a'r cig. Dodwch y cyfan (ar wahân i'r genhinen) mewn sosban fawr. Gadewch iddo ferwi'n araf gyhyd â phosib. Ychwanegwch y ceirch i dewychu'r cawl. Dodwch y genhinen i mewn. Berwch eto am ddeng munud.

T.V. Times
↓



5.0 New Faces

DEREK HOBSON
with JACK PARNELL
LES REED SHAW TAYLOR
MURIEL YOUNG

Derek Hobson introduces a special winners' show of acts that have already won the acclaim of the panel.

→ TUDALEN DEG

Mi fûm i yn y Gogledd ddwywaith yn ddiweddar a chael cyfle i droedio'r hen lwybrau - wel, dyna i chi gelwydd i ddechra! Fe ŵyr pawb sy'n f'adnabod nad wyf yn droediwr o fri. Na, cyfle i grwydro'n hamddenol yn y car oedd hi. Wrth deithio bro gynefin mae'n rhyfedd fel y daw atgofion i'r meddwl - digwyddiadau a dywediadau sy'n rhan annatod o fagwraeth. Nid ydynt yn golygu dim i neb ond aelodau'r teulu.

Teithiais o Fangor i Bwllheli heibio i wal y Faenol am y Felinheli. 'Last Septemba', meddwn wrthyf fy hun - cofio am y te parti a'r mabolgampau a gaem ni, blant y Felinheli, gan Syr Michael Duff bob mis Medi. Ar ddiwedd y pnawn caem anerchiad ganddo. Bob blwyddyn yn ei acen grand byddai'n dechrau trwy ddweud 'Last Septemba'.

Pasio'r hen gloc wrth yr orsaf yn y Felinheli a dyma glywed fy hun yn dweud 'Fiw i mi'. Cofio 'Nhad yn dod adre am ychydig ddyddiau o'r fyddin adeg y rhyfel a phob tro wynebai'r un broblem. Roedd y trêrn yn aros ym Mangor a Chaernarfon ond yn gwibio drwy'r Felinheli. 'Nhad unwaith yn ymbil ym Mangor ar i'r gyrrwr aros am eiliad yn y Felinheli. 'Fiw i mi', oedd yr ateb. Yna 'Nhad yn gofyn a wnâi arafu 'ta er mwyn iddo gael cyfle i neidio allan, ond yr un ateb i'r cais hwnnw - 'Fiw i mi'!

Mynd drwy Gaernarfon a gresynu bod y ffordd newydd wedi mwrdro'r hen dre a'm bod yn gorfod osgoi'r Maes a Stryd Llyn. Cefais gip ar dŷ Nain wrth droi am Ffordd Pwllheli a chofio fel y byddai'n agor tun o 'salmon' pan aem yno i de. Rhyw damaid mawr mwy na llong llwy de ar ganol y plat efo tomato a finag o botel wydr ddel a Nain bob amser yn dweud 'Byta di ddigon o frechdan, 'ngienath i, iti gael llond dy fol'. Sylweddoli erbyn hyn fod y platiad anferth o fara menyf yn arwydd o'r prinder a brofodd gydol ei hoes - y bara menyf oedd i fod i'n llenwi a dim ond y mymryn lleia o ryweth i roi blas ar y pryd.

Ionawr 10 : Sadwrn Siarad Nant Gwytheirn. Canolfan yr Urdd. 10.00 a.m. - 4.00 p.m. Croeso i ddysgwyr o bob safon. Pris: £1 (gan gynnwys coffi bore). Os am ddod, anfonwch at J.A. Evans fel uchod.
Chwefror 6-8 : Penwythnos Gymraeg yng Ngwersyll Llan-grannog. Manylion oddi wrth: 5 Maes Albert, Aberystwyth.

Teithio drwy Bontnewydd a chil-edrych ar gartre'r casglwr alawon gwerin, Grace Gwyneddon Davies, a chofio fel byddai fy mam yn ei hedmygu ac yn sôn amdani. Pasio Minafon, ein cartre am amser byr yn Llanwnda, a gresynu bod y tŷ gyferbyn â ni wedi colli'i enw tlws 'Plas Ffynnon' a mabwysiadu'r enw mell-tigedig 'The Stables'. Tybed ydy'r ffynnon yno o hyd? Cofio mor drwm oedd y bwcedi y cariem ni'r dŵr ynddynt droeon y dydd. Roedd gan Taid weithdy saer tu ôl i'n tŷ ni. Sylwi bod hwnnw'n prysur ddadfeilio. Yn fy nychymyg gallwn glywed arogl y coed a'r siafins. Byddai Taid yn gwneud eirch - 'cwch efo jam du' i mi - a 'pitch' oedd y jam du. Byddwn wrth fy modd yn cael dringo i mewn i un o'r eirch a smalio fy mod yn rhywfo. Byddai Taid yn deud y drefn yn ofnadwy os dringwn i mewn wedi iddo orchuddio'r 'pitch' â defnydd gwyn patrymog crand - 'Myn diagan, tyd o fanna a dos i'r tŷ, y gnawas bach!'. Wen i ddim a sylweddolwn ar y pryd beth oedd pwrpas y cychod hyn - go brin, greda i!

Ymlaen heibio cartre Syr Ifor Williams ym Mhontllyfni a dynesu at y bwch yn yr Eifl. A'm calon yn cynhesu wrth feddwl, heb fawr o dro, y byddwn yn dod i lawr yr allt i Bwllheli - i lawr yr allt a dacw gapel Penmount! Gellid sgwennu llyfr am f'atgofion am y lle hwnnw a'i weinidog annwyl, y Parchedig Morgan Griffith. Rhaid ymatal - colofn sydd gen i yn y 'Dinesydd' ac nid rhifyn cyfan!

Wrth ddechrau paratoi ar gyfer y Nadolig dyma sylweddoli fy mod i'n mynd ati'n union fel y byddai fy mam yn gwneud, a'n bod ni yng Nghoed y Pry'n cadw'r un defodau ag a oedd gennym ni yn fy nghartre i. Er bod y genod wedi tyfu bydd Dad yn dal i godi'n gynta fora Dolig. Mynd i lawr y grisiau, cipolwg o dan y goeden ac yna'n ôl i droed y grisiau a gweiddi 'Ydy, mae o wedi bod!'. Yna'r cyffro o ruthro i lawr a gwylio'r ddwy yn gwagio'i hosan. Atgofion, defodau a thraddodiadau. Clên te? Dolig Llawen i chi gyd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr. Alun Davies, Amgueddfa Werin Cymru. Collodd ei dad yn ddiweddar.

CYMDEITHAS CLWB

CYMRAEG CAERDYDD

MENTR GYDWEITHREDOL

- *BAR *YSTAFELL ADLONIAINT
- *LOLF A *YSTAFELL CHWARAEON
- *BWYD *YSTAFELL CYFARFOD
- *YSTAFELL BWYLLGORAU

- * NOSWEITHIAU GWERIN A DAWNSFEYDD - YN RHEOLAIDD!
- * ELW AT GYMDEITHASAU A MUDIADAU CYMRAEG
- * MAN CYCHWYN I GYMDEITHASAU CYMRAEG NEWYDD

Gallai Clwb Cymraeg Caerdydd ddarparu'r pethau hyn i gyd.

Os ydych chi thau am weld Clwb Cymraeg yng Nghaerdydd, llenwch y ffurflen isod.

Anfonwch at Nic ap Glyn, 135 Keppoch St., Caerdydd.

Mae arnaf eisiau :

Rhagor o wybodaeth

Dod yn aelod o'r Gymdeithas (£1)

Dod yn aelod sylfaenol o'r Clwb (£5.55 y mis am 18 mis)

Enw

Cyfeiriad

Aeth Dai o blwyf Penderyn I'r ffair i byrnu mochyn, Fe alwodd mewn i'r 'Horse and Trap', Pŵr dab, aeth dros y dibyn.

Cyfle arall eto

Ymddiriedolaeth Radio
Caerdydd,
Rhif Blwch Post 221,
Caerdydd. CP5 1XJ.

Annwyl Olygydd,

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn rhoi cyfle, trwy dudalennau eich papur, imi gysylltu â Chymry Cymraeg Caerdydd a'r Cylch.

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Radio Caerdydd i gynrychioli gwrandawyr o fewn yr ardal ddarlledu CBC/Darlledu Caerdydd. Mae gennych gyfle i gyfrannu yn uniongyrchol drwy ymuno â gweithgorau, neu gallwch fynegi barn mewn cyfarfod-ydd cyhoeddus, neu drwy gysylltu â Swyddfa'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r gweithgor Cymraeg wedi cwrrd nifer o weithiau, ond erbyn hyn wedi dod i ben. Ers hynny cyfetholwyd fi ar Gyngor Rheolaeth yr Ymddiriedolaeth, a rydw i'n gobeithio cynrychioli eich syniadau a'ch barn yn y llefydd priodol.

Felly pe bai gennych unrhyw beth i'w ddweud ynghylch Darlledu Caerdydd a'i raglenni (canmol neu feirniadu!), mae croeso i chi ysgrifennu ataf dan ofal Swyddfa'r Ymddiriedolaeth neu fy ffonio gartre (Caerdydd 490614).

Yn gywir,

Richard Houdmont.

Trwy i lythyr Richard Houdmont ddod, mewn camgymeriad, ataf fi yn lle y golygydd, ces gyfle i'w ddarllen cyn iddo ef ei gael. Efallai felly y byddai rhai geiriau i'w gefnogi yn gymorth, achos wyddwn i ddim nes darllen geiriau Richard fod y gweithgor Cymraeg ar gyfer Darlledu Caerdydd wedi dod i ben!

Fel y gwychoch, rydw i'n un o'r tîm bychan sy'n ceisio dod â rhywbeth yn y Cymraeg i'r ddinas unwaith yn y mis, a fisoedd lawer yn ôl bellach, daeth cais inni geisio trefnu cyfarfod yn rhywle fel y gallai Mr. Eyrn Ogwen a Mr. Dan Damon o CBC ddod i ddweud rhywbeth amdanynt ac i awgrymu, os da y cofiaf, nad oedd Cymry Cymraeg y ddinas yn tynnu eu pwysau ynglŷn â'r fenter. Gan ein bod ni'n cael trafferth i gael rhai i ddod i'n cwrrd blynyddol, penderfynwyd lladd dau aderyn ag un garreg a galw cwrrd yn Yr Aelwyd. Daeth llu ynghyd ac yno dywedodd Mr. Damon y byddai am ein gymorth gyda rhaglenni am flynyddoedd. Aed ati i drefnu gweithgorau, a'r rhai a ddeiswyd i'w trefnu oedd Richard Houdmont a fi.

Doedd gen i mo'r awydd mwyaf i wneud hynny, achos roeddwn wedi mynychu sawl gweithgor arall a'r teimlad a gawn oedd nad oedd neb yn sicr i ble'r oedd yn mynd yn y cyfarfodydd hynny. Sut bynnag, trefnwyd gweithgorau yng Ngholeg Addysg Caerdydd ac eto daeth llu o bobl frwdfrydig ynghyd. Casglwyd pob syniad at ei gilydd a'u gyrru i gyd at Mr. Damon yn CBC, gyda gwahoddiad i'r cyfarfod nesaf - fel y gellid bwrw'r cwch yn ddyfnach i'r dŵr. Cystal i mi egluro fod rhai darlledwyr profiadol yn ein plith - rhai a amheuai a oedd popeth a oedd ar y gweill yn ymarferol.

Cynhaliwyd cyfarfod o arweinyddion y gweithgorau a Mr. Damon mewn swyddfa yng nghanol y ddinas. Yn anffodus, anghofiodd Mr. Damon ddod â'r copi o'r holl syniadau a roddwyd iddo gydag e, ond rhoddodd ddadansoddiad cwrtais a theg o'i syniadau ynglŷn â datblygiad CBC. Yn anlwg, doedden nhw ddim yn debyg i syniadau'r gweithgor Cymraeg, ond doedd neb yn teimlo'n chwithig iawn oherwydd hyn - dim ond yn anniddig eu bod wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd i wastraffu eu hamser.

O dipyn i beth, datblygodd y cyfarfodydd yma yn sesiynau yn CBC. Rhaid dweud i rai ohonom fod yn llym iawn ar gynnyrch Cymraeg CBC yn ystod ei wythnosau cyntaf ar yr awyr, ond tu ôl i'r llymder bob tro roedd awydd a phob parodrwydd i helpu. Un syniad a godwyd oedd y dylid cael cyfarfodydd amser cinio! A dyma a ddigwyddodd yn awr - y rhai a fedrai ddod yn dod.

Yn anffodus, mae'n anodd i lawer ddod ar awr ginio ac roedd angen tipyn o drefnu ac ad-drefnu i gael neb i ddod o gwbl. Doedd y syniadau ddim mor niferus â chynt, rhaid cyfaddef, yn bennaf am fod cynifer o'r hen syniadau wedi mynd i'r llwch yn y wharffiau. Rheswm arall oedd y ffaith y gwyddai llawer ohonom nad oedd y rhan fwyaf o'r syniadau yn ymarferol fel ag yr oedd pethau ar y pryd yn stiwdios y cwmni - na eiddid disgwyl am fwy na record a chân, er y gellid, heb lawer o drafferth roi enw gwahanol i bob rhaglen.

Daeth y cyfarfodydd yma i uchafbwynt drwy i'r grŵp Cymraeg yn y cwmni drefnu cyfarfod mawr yn y stiwdios fel y gellid gosod popeth ar sylfaen gadarnach. Hysbysebwyd y cwrrd hwn yn helaeth, ond ychydig iawn a ddaeth yno. Does gen i'n bersonol yr un syniad pahan, ond gwn i rai fynd ar goll wrth geisio

chwilio am y lle. Roedd eraill, mae arnaf ofn, ar goll, er eu bod wedi cyrraedd.

Fy ymateb cyntaf (a'r olaf!) i'r llythyr uchod, felly, yw, na wyddwn i ddim fod y gweithgor Cymraeg wedi marw, a'i fod hwyrach yn cysgu mewn rhyw ogof yn Sblot, yn aros i ryw Owain neu Arthur (neu Richard) i'w ddeffro o'i gwsg!

Rwy'n para i obeithio y bydd CBC yn llwyddiant, yn enwedig yr oriau Cymraeg. Duw a wyr, mae angen pob un o'r rheiny arnom. Gwn fod rhai o'r gweithgorau di-Cymraeg wedi trengu, a'r farn gyffredinol ymhlith arweinyddion rhai o'r rheiny oedd i'r Ymddiriedolaeth anelu at wneud yr amhosibl gyda'u llu syniadau am ddwyn pawb i mewn i radio leol. Roeddenn nhw'n wych-ddelfrydol, ond yn anymarferol gyda'r gweithwyr a oedd gyda'r cwmni (yn ddigon naturiol - dwy i ddim yn eu beio) yn awyddus i wneud eu rhaglenni eu hunain. Gresyn i rywrai yn rhywle wastraffu amser cynifer o bobl.

Bum yn golygu dau rifyn o'r 'Dinesydd' dros dro. Un o'r pethau cyntaf a wneuthum oedd anfon llythyr at Mr. Dan Damon i ofyn iddo a allwn gael disgrifiad llawn o'r holl raglenni fel y gellid eu hysbysebu yn Y Dinesydd er lles i bawb. Roedd cynifer o bobl heb wybod beth oedd yn mynd ymlaen. Ddaeth yr un ateb. Pam, wn i ddim.

Efallai i'm llythyr fynd ar goll yn y post. Efallai i'w ateb ef fynd ar goll yn y post. Efallai ei fod o'r farn na ddeuai dim lles o sôn am y rhaglenni yn Y Dinesydd. Nawr, mewn ffordd, dyma gyfle arall eto. Pob lwc iddyn nhw.

W.J. Jones.

Llongyfarchiadau ar ddyweddian Irwyn Wilcox, Treorci (cyn-ddisgybl yn Rhydafen) a Sian Elizabeth Morgan (merch Mr. a Mrs. Islwyn Morgan), Caerffili - Sian hefyd yn gyn-ddisgybl yn Rhydafen.

Llongyfarchiadau i Glensi a David Page Williams, Cyncoed, ar enedig-aeth Llinos Mair Davies, chwaer i Ifor ac Emyr ac wyres i'r Parch a Mrs. Denzil Harries.

Trist yw cofnodi fod Gareth West-acott wedi ymuno â'r Mudiad Dirwest.

Y GOLOFN GAIN PARRHAD

Drych

Di-wyrni feirniad arnaf, - ei wenau'n
Fy ngwanwyn a gofiaf;
Heddiw'n ddi-gôl y gwelaf
Ar ei loyw wedd ffarwel haf.

Rhwd

Os rhy ddiog yw'r boblogaeth i iro
Peiriant democratiaeth,
I anhydrin lywodraeth
A'i byddin goch bydd yn gaeth.

Y ddau olaf oedd yn orau gan y beirniad. Awdur y naill yw J. Lloyd Jones, Llwyn Dafydd, Ceredigion, sef tad Brynmor Jones y Llyfrgellydd. Nid yw ennill yn Eisteddfodau Caerdydd nac yn y Genedlaethol yn brofiad dieithr iddo. Rhyw foi lleol biau'r englyn i'r 'Rhwd'!

Fe gawn olwg ar yr Englyn Ddiwri ac ar rai o'r llinellau coll yn y rhifyn nesaf efallai, ond nid y tro hwn oherwydd 'rwyf am i'r garol gynhyrfus hon gan Euryng Ogwen ymddangos cyn y Nadolig. Mae rhyw uniongyrchedd i ganu Euryng. Fe gofiwch i'w delyneg gignoeth yn Eisteddfod Caerdydd gael rhan o'r wobwr yn unig. Eto mynnodd y gerdd honno ei lle yn 'Y Flodeugerod Delynegion' a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae llymder cyffelyb i'w glywed yn y garol hon, a sylwch fel mae hi'n tyfu o'i dechrau petrus i'w diwedd cadarn. Diolch yn fawr i Euryng am ein tywys ni at orfoledd yr Wyl.

Carol Mathew

'Doedd neb ond un yn cofio, medde 'nhw, -
Hen fugail digon ffwdrus âi ar ei lw
Fod rhywbeth wedi digwydd. Cofiai ef
Y lloer yn neidio, sêr yn dawnsio a'r nef
Yn atsain i gân angylion, golau a stŵr,
Ond beth yw gwerth atgofion rhyw hen ŵr?
Aeth hanner canrif heibio ac ar ei air
'Rwy'n seilio hanes geni baban Mair.
Oes ffaith ar gael? Oes coel ar unrhyw un
Sy'n traethu hanes geni Mab y Dyn?
.....

Ffaith; cafodd Ei erlid gan y drefn;
Ffaith; cafodd Ei guro ar ei gefn,
Ei osod fel drwg-weithredwr ar y groes,
Ei hoelio a'i ddarnio, dioddef loes,
A marw yn enw trefn ar ben rhyw fryn.
Dyna'r ffeithiau, mai tystion welodd hyn.
Ac os oes angen ffeithiau'n fwy na ffydd
'Rwy'n gwybod Iddo godi'r trydydd dydd.
Gan i mi fy hunan weld Mab Duw
'Rwy'n dechrau'r hanes gyda'r Iesu byw,
A diwedd y stori yw gorfoledd nef
Yn dathlu ffaith Ei enedigaeth Ef.

Euryng Ogwen.



Tudalen yr Ysgolion

Beth sy'n gyffredin rhwng deintydd, diafol, bwystfil swil, mynegbost siaradus, ac athrawon cas? Wel, dyma rai o'r cymeriadau rhyfedd yn y ddrama 'Tipyn o Nwy' a berfformiwyd gan ddisgyblion Ysgol Gymraeg Glantaf yn Stiwdio Ddrama Politechnig y Barri eleni.

Fe ofynwyd i'r dramodydd Urien Wiliam ysgrifennu drama yn arbennig i ddisgyblion yr ysgol ar gyfer Bisteddfod yr Urdd y llynedd, ond roeddem i gyd mor brysur fel roedd yn amhosibl i ni ddod i ben â'r perfformiad hyd at eleni.

Mae Steffan, mab Urien Wiliam, yn ddisgybl yn yr ysgol, ac ef a gymerodd ran Gwyn, y bachgen sy'n dioddef o'r ddannodd. Cymerir ef i'r deintydd gan ei 'fam' sy'n edrych yn ddeniadol yn ei sodlau uchel a'i bag llaw del. Tu ôl i'r llenni gwelir y deintydd yn rhoddi nwy iddo ar gyfer tynnu ei ddant tost. Mae Gwyn yn syrthio i drwm-gwsg dan effaith y nwy a dyna'r esboniad am deitl y ddrama. Mae Gwyn yn ei freuddwydion yn cyfarfod ag amryw o gymderiadau anghredadwy. Mae brwydr ffyrnig rhwng yr 'Angylion' a'r 'Diawliaid' am enaid Gwyn (Dyw Gwyn ddim yn rhy hoff o'r syniad o ganu emynau a chwarae'r delyn hyd at dragwyddoldeb nag o danio'r ffwrneisi yn y lle arall). Mae e'n cyfarfod â chreaduriaid i'w rhyfeddu; - bwystfil hacra'r byd, ond un, serch hynny, sy'n dyner ac yn swil ac yn llawn tristwch am fod neb yn ei hoffi; - mynegbost nad yw'n gwybod i ba gyfeiriad y mae'n cyfeirio, a hudoles sy'n gwneud ei gorau i'w ddenu i ddistryw.

Yn y diwedd, wrth gwrs, mae Gwyn yn deffro e sylweddoli mai hunllef yw'r cyfan, ac fel pob stori dda mae'r cyfan yn gorffen yn hapus gyda'r cast yn canu a dawnsio ar y llwyfan.

Efallai dylwn i ddim fod wedi dweud holl gynllwyn y stori ond mae digon ar ôl i ddiidori'r gynulleidfa ac mae hwyl a sbri ymhob llinell. Roedd cyfle hefyd i dynnu coes athrawon neu ddisgyblion yn ogystal â gwneud sbri am ben yr Ayatollah Khomeini neu'r Prif Weinidog.

Cawsom ni lawer o hwyl yn ymarfer yn enwedig an ein bod yn colli gwersi ysgol. Roedd Mrs. Bethan Roberts, ein cynhyrchydd medrus, yn garedig iawn i ni, ac roedd Mr. Anthony Evans a Mrs. Morse wedi cyflawni gwyrthiau wrth greu

gwisgoedd bendigedig i siwtio pawb. A dweud y gwir, roedd llawer o staff yr ysgol wrth eu bodd yn coluro neu'n symud dodref neu'n trefnu goleuadau yn hytrach na dysgu Ffrangeg neu Ddaearyddiaeth neu Ffiseg. Roedd hefyd yn anrhydedd gynta'r ysgol ac yn enwedig gan ei bod wedi'i chyfansoddi yn arbennig ar ein cyfer.

Efallai yr hyn y byddai i'n ei gofio fwyaf am y ddrama yw paratoi coffi ar gyfer oedolion oedd yn helpu a chwmpo'n bendramwngl mewn llyn o goffi du! Dyna i fi oedd drama fwyaf'r diwrnod!

Eluned Morgan.

C.A.S.P.A.CH.

Cafodd y grŵp pop o Lanhari flwyddyn yn segur llynedd gan ei bod yn 'flwyddyn dyngedfennol', h.y. blwyddyn y lefel O. Bu'n rhaid inni gyfaddawdu a chanolbwyntio ar y gwaith academiaidd ar yr amod y byddem yn cael canu a mwynhau cerddoriaeth ysgafn yn ystod blwyddyn gyntaf y chweched dosbarth. Ychydig o sylw felly a roddwyd i'r caneuon y buom yn eu canu flwyddyn yn ôl, ac mae'r rheiny bellach wedi rhydu. Fodd bynnag, mae Liz, Elen, Mari, Anna, Mererid a Sian wrthi'n paratoi amryw o caneuon a gyfansoddiwyd gan y trŵp - rhai newydd gan fwyaf ynghyd â chaneuon adnabyddus eraill sy'n cael eu haddasu i weddu i'n lleisiau. Rydym yn ddyledus i ddau athro prysur sydd heb amser yn barod i roi peth o'u hamser prin i'n helpu ac i'n cynghori. Maent hefyd wedi cyfansoddi rhai caneuon ar ein cyfer.

Er bod y paragraff cyntaf yn gwneud inni swnio fel petaem yn gweithio'n ddiwyd ac o ddifri, rhaid pwysleisio nad ydym yn ceisio cyrraedd rhyw nod arbennig nac unrhyw safon uchelgeisiol. Rydym yn canu o ran pleser a human-fodhad. Er hyn, braf oedd gweld rhai o gynulleidfa oedd capeli cefn gwlad yn ymateb i'n perfformiadau pan fo rhai o aelodau'r grŵp yn cynnal gwasanaethau yr haf diwethaf.

Rydym eisoes wedi canu gyda'n gilydd sawl gwaith y tymor hwn mewn capel, cymdeithas neu gyfarfod. Mae'r rhagolygon yn eithaf cyffrous gan y bydown yn canu mewn ambell noswaith ac yn ymdangos ar y ddwy sianel deledu yn y dyfodol agos. Amser i ymarfer yw ein rhwystr pennaf. Peth amhosib yw cael

chwech ohonom i gytuno ar amser, lle a hyd ymarfer.

Mae Dafydd Ser, y dinesydd adnabyddus, wedi dweud yn ddiweddar y byddai'n fodlon cyfeilio i ni gyda'i gitâr fas pan fydd angen. Gobeithio fod y cynnig yn dal yn agored, Dafydd!

Nid "hysbys" fel y cyfryw yw'r erthygl fach hon. Roeddem ni'n tybio y byddai rhai o ddarllenwyr y 'Dinesydd' sydd wedi bod yn holi am ein bodolaeth yn hoffi gwybod i sicrwydd fod C.A.S.P.A.CH. yn dal ar dir y byw!!

Cynhaliwyd sioe ffasiynau arbennig o lwyddiannus yn Ysgol Gyfun Rhydfelen yn ddiweddar. Yno, gwelwyd dewis eang o ddillad Laura Ashley yn cael eu harddangos gan ddisgyblion yr ysgol.

Rhannwyd y sioe yn bum gwahanol olygfa a oedd yn cynnwys dillad addas ar gyfer pob achlysur. Yn ystod yr olygfa gyntaf modelwyd dillad a oedd yn addas ar gyfer y dydd, gan amrywio o gotiau trwchus i sgertiau a ffrogiau. Arhosodd pum merch ar y llwyfan i arddangos y prif wisgoedd a chreu awyrgylch bywyd pob dydd tra bod merched eraill yn arddangos gwisgoedd o wahanol liwiau a steiliau.

Dillad nos oedd thema'r ail olygfa ac addurnwyd y llwyfan yn ddeniadol iawn gan greu awyrgylch noswyllo hynod o effeithiol. Cafwyd amrywiaeth o ddillad nos a oedd yn addas ar gyfer haf a gaeaf. Yma, yn arbennig, roedd yn bosib gweld steil unigryw Laura Ashley yn y defnyddiau cotwm pert a'r addurniadau les a fodelwyd.

Newidiodd yr awyrgylch yn gyfangwbl yn yr olygfa nesaf, sef, golygfa'r ddisgo. Creodd system goleuadau effeithiol awyrgylch realistig iawn ac roedd dawnsio egniol y chwe merch yn destun canmoliaeth uchel. Gwisgent ddillad Laura Ashley a fyddai'n gweddu at unrhyw noson hwylus mewn disgo.

Ar ôl egwyl hynod o bleserus pan weinwyd coffi a the gan aelodau o'r chweched i gyfeiliant telynau, ail-ddechreuodd y sioe gyda'r olygfa min nos. Ffrogiau, blowsys a sgertiau ar gyfer achlysuron nos mwy ffurfiol oedd y rhan fwyaf o'r gwisgoedd.

Uchafbwynt y noson oedd yr olygfa olaf sef golygfa'r briodas.

→ TUDALEN 15

RECORDIAU NEWYDD SAIN



Ⓢ BANDO - "HWYL AR Y MASTIAU"

Ⓢ DONIAU MALDWIN AT CHYFFINIAU - RECORD DOWBL BRO ESTEDDOD GENEDELAETHOL 1981



Ⓢ "CEWRI'R CRYSAU COCHION"

- Y RECORD RYBISI GYMRAEG
GYDA SYLWEAETHAU JOHN EVANS A CARWYN JAMES, CANEUON DAFYDD IWAN A RAY GRAVEL, ADRODDIADAU RACHEL THOMAS A BRIAN OWEN, A CHANU'R GORF.

Ⓢ ESTEDDOD GYDWLADOL LLANGOLLEN - PIGION GWYL 1980
HIGHLIGHTS OF THE 1980 LLANGOLLEN INTERNATIONAL MUSICAL ESTEDDOD



Ⓢ "DONIAU GYFFRYN TEFF"

- RECORD DOWBL TALENTAU BRO ESTEDDOD YN URDD 1981

Ⓢ TREBOR EDWARDS
"UN DYDD AR Y TRO"

Ⓢ "DEWCH I GANU" - GYDA ROSALIND A MYRDDIN, PARTI'R FFYNNON, PARTI'RYRRIAL A MYNEDIAD AM ODDIM - Bugal Aberdyfi, Migi Migi, Ar Lan y Môr, Y Crwydyn, Llan, Sosban Fach, Yr Eneth, Gadd o Gwrthod, Elm... 13 o ffyrnau lytholwydd!

Ⓢ "BOIS Y BÊL" - BONEDDIGION Y GÂN



Ⓢ "MAGI THATCHER"
"SUL Y BLODAU"

RECORD SENGL YSGUBOL DAFYDD IWAN



Ⓢ "GWLAD! GWLAD!"
TORF Y STADIWM GENEDELAETHOL YN CANU cyn gŵyl y Crysau Duon ac ar ddiwrnod gale'r canmlwyddiant:-
Calon Lân, Cwm Rhonda, I Bob Un, Sosban Fach, Ar Hyd y Nos, Myfanwy, ac ati.

Ⓢ EDWARD H.
"PLANT Y FFLAM"

SAIN (Recordiau) Cyf., Penygroes, Caernarfon, Gwynedd.

Y COLEG NORMAL, BANGOR

Prifathro Dr. J.A. Davies, M.A., B.Sc.

Creffft, Cynllunio a Thechnoleg

Mae prinder difrifol o athrawon i lenwi swyddi yng ngweithdai Adrannau Crefft a Chynllunio ein hysgolion. Beth am ddo i'r Coleg Normal i'r Adran Gynllunio Crefft a Thechnoleg i ddilyn un o'r cyrsiau canlynol.

DIPLOMA ADDYSG UWCH
(Cwrs dwy flynedd)

Mae'r cwrs hwn yn arwain i:
B.Add. un flwyddyn
B.Add.(Anrhydedd) dwy flynedd

DIPLOMA ADDYSG UWCH
(Cwrs terfynol)

CWRS I RADDEDIGION


(un flwyddyn) a all gynnwys agweddau ar Grefft, Cynllunio a Thechnoleg.

Amodau mynediad:

Da'u bwac safon 'A'

Rhoddir ystyriaeth arbennig i fyfyrwyr hŷn (23+).

Os am fwy o fanylion neu gyfle i drafod y posibilïadau cysyllter â Swyddog Mynediad, Y Coleg Normal, Bangor, Gwynedd. LL57 2HQ. Tel. (0248) 52121.



Cystadleuaeth Clawr PAIS

Gan ein bod yn gobeithio cael clawr llw llawn ar PAIS yn rheolaidd o fis Rhagfyr ymlaen, y mis hwn 'r ydym yn gwahodd ffotograffwyr dros Gymru gyfan i anfon lluniau llw i ni o ferched dela'u hardal-oedd. Bydd angen o leiaf tri llun o bob merch - pob un ychydig bach yn wahanol ond heb fod yn rhy wahanol i'w gilydd - a'r rheiny'n lluniau tryloyw (transparencies) o faint 35mm o leiaf, er gorau po fwyaf fydd maint y lluniau ar gyfer cael eu chwyddo wedyn. Byddwn yn edrych am luniau gyda thipyn bach o ddychymyg y tu ôl iddyn nhw - ond heb fynd dros ben llestri!!

Y LLOBR GYNTRAF YLLI ESO

... a chael dangos y llun ar glawr PAIS wrth gwrs. Byddwn hefyd yn defnyddio rhai o'r lluniau eraill a anfonir i mewn ac yn talu am y rheiny yn ôl ein telerau arferol am lun y

clawr. Bydd y ffotograffwyr yn cael cadw'r hawlfraint ar y lluniau ar ôl i ni eu defnyddio yn PAIS.

Er mwyn rhoi digon o amser i bawb, 'r ydym wedi penderfynu mai Mawrth 1 fydd dyddiad cau y cystadleuaeth, er bod croeso i chi ddechrau anfon lluniau i mewn o'r mis hwn ymlaen. Gobeithiwn y bydd camerau'n clicio ym mhobman dros Gymru yn ystod y pedwar mis nesaf, felly, ac edrychwn ymlaen am gael gweld y canlyniadau.

Anfonwch eich lluniau, ynghyd â phwt bychan am y merched sydd ynddynt, i:
CYSTADLEUAETH CLAWR PAIS,
CYHOEDDIADAU MEL, 40 STRYD Y
WYDDFA, PENYGROES, CAERNARFON,
GWYNEDD, LL54 6NG, erbyn Mawrth y
cyntaf.



Wyl ti'n meddwl fod delwedd Y Dinesydd wedi newid?

O DUDALEN TRI

Datblygiad diweddar yn ymgyrch nifer o selogion yr iaith gan gynnwys Alan Stivell i wrthod talu'r drwydded teledu.

Yn Chwefror 1977 mynegodd yr Arlywydd Giscard d'Estaing ei barodrwydd i sefydlu math o Siarter Ieithyddol a fyddai'n hyrwyddo holl agweddau'r diwylliant Llydewig. Wrth gyflwyno ei gynllun i'r Llydawyr roedd ei ddatganiad yn arwyddocaol: 'Mae traddodiadau Llydaw yn gyfystyr â ffordd o fyw, rhywbeth gwahanol mewn byd unfurf a dienaid'. Yn y cyd-destun Ffrengig, ymylodd hwn ar fod yn ddatganiad chwyldroadol.

Mewn gwirionedd ni wnâi'r Arlywydd ond cydnabod adfywiad amlwg y byd Llydewig. Cred amryw mai cantorion gwrthryfelgar megis Glenmor a Stivell sydd wrth wraidd yr ymwybyddiaeth newydd. Dyma, yn anad neb, ladmeryddion y genhedlaeth iau o Lydawyr hyderus. Pwysleisia Stivell: 'o'r blaen, safai mur o ragfarnau o amgylch cerddoriaeth Lydewig. Roedd teimlad o israddoldeb, ofn cael ein hystyried yn hen-ffasiwn. Roedd y ffaith y gallew wrando ar ganeuon Llydaweg ar y radio, ymysg cynnyrch Ffrangeg a thramor yn ysgetwad i'r meddylfryd Llydewig'. Gall Llydawyr ifanc uniaethu eu hunain â'r gerddoriaeth hon ac ymfalchïo ynddi. Gwrthodant dderbyn fod popeth Llydaweg yn daleithiol a diwerth. Iaith a diwylliant yw calon a chraidd yr hyn y carant ei ddiogelu; dyma sail eu hunaniaeth. Dyma'r elfen sy'n eu troi'n genedlaetholwyr wrth reddf. Dyma hefyd eu harf mwyaf nerthol. Dichon fod llywodraeth Ffrainc yn ymwybodol o hynny.

Dewi Llwyd.



theatr cymru yn cyflwyno
**rasus
cymylau**
pantomeim newydd gan
cefin roberts
THEATR SHERMAN CAERDYDD
Coleg y Brifysgol Caerdydd, Heol Senghennydd
Swyddfa Docynnau: CAERDYDD (STD 6222) 30451 (10.00 a.m. - 8.00 p.m.)
20-24 IONAWR
Mawrth 1.15 p.m., Mercher-iau 10.00 a.m. a 1.15 p.m.,
Gwener 1.15 p.m. a 7.00 p.m., Sadwrn 2.30 p.m. a 7.00 p.m.
£2.00 (Oedolion) £1.50 (Plant) £1.30 (Partion ysgol i'r dydd berfformiadau)

Goda theatrsgwrth Cynigwr Celfyddid Cymru a chywethredol Cymroethen Theatr Cymru.

HYSBYS:

Gall hysbysebu yn Y Dinesydd ddwyn ffrwyth! Mae gennym yn awr delerau da i wŷr busnes a phobl gyffredin fel ei gilydd. Dyma'r manylion:

Tudalen lawn = £42
Hanner tudalen = £21
Dwy golofn ½ tud = £14
½ colofn = £ 3.50
Hysbysebion llai = £ 2.00

Os bydd rhaid i ni wneud y logo (print bras) codir £2 yn ychwanegol. Gellir hysbysebu manion i'w gwerthu, gwasanaethau ac ati am £2 yn unig. Trwy wneud hyn, byddwch yn helpu'r Dinesydd a chi eich hunain ar yr un pryd.

BWRDD FFILMIAU'R PRO GYMRAEG

Ar daith yn ystod Tymor y Grawys:

HENRY FONDA ac EMYR LLEWELYN

Y+N

"how the West Was Won"

"Ffantasi pur" Y Dinesydd

"Campus" Lol

"Cefnogwch y Gronfa" Y Faner

CYNT Y CWRDD DAU DDYN NA DAU FFINYDD.

'Ryd i'n egyt am ddarllen papur newydd, boed un dyddiol, un wythnosol, un enwadol neu yn un bro. Pan es i fyw i Pethel ger Caernarfon i dreulio pythefnos o wyliau ar ôl 'Steddfod Dyffryn Lliw, bûm wrthi yn pori drwy bentwr o bapurau newydd yn enwedig yr un wythnosol, 'Herald Môn'. Wrth ddarllen rhifyn dydd Mawrth, 29 Gorffennaf eleni syrthiodd fy llygaid ar erthygl hynod o ddiddorol - erthygl â naws Cwm Rhymini iddi. Credais mai peth da fuasai ei chodi o'r papur a'i chynnwys yn fy ngholofn. Cefais ganiatâd parod 'Herald Môn' i wneud hynny. Teitl y stori yw 'Gŵr o Llyn yn y De yn cael hyd i'r Hen Forgan':

"Er fod y bregeth yn faith mwynhaodd W.O. ei hun yn fawr yn y gwasanaeth - yn Ravena, yr Eidal, nos Sul y Pasg, 1945, ond er holi llawer ar ôl dychwelyd i Gymru methodd â chael unrhyw wybodaeth am y Parch T.J. Morgan, y gŵr oedd yng ngofal yr oedfa. Daeth y chwilio i ben ddydd Sul diwethaf pan ymwelodd Mr. Jones â Chaerffili.

Yn ystod y rhyfel yr oedd Mr. W.O. Jones, Garnedd, Nefyn, yn gwasanaethu gydag adran ambiwlans y Fyddin. Tra'n Ravena, trefnwyd oedfa i'r Cymry yng nghanolfan yr Y.M.C.A.

Ar y nos Sul arbennig hon aeth y Parch T.J. Morgan 'i hwyl' gan anghofio bod oedfa arall i'r Saeson i'w chynnal yn yr un adellad ymhen yr awr. Pan oedd hi ymhell wedi saith dechreuodd yr ail eisteddiad guro'n ddi-amynedd wrth y drws. 'Roedd y bregeth yn un 'fythgofiadwy' a phan ddychwelodd adref penderfynodd W.O., fel yr adnabyddir, gysylltu â'i hen gyfaill. Holodd yma ac acw ond methodd â chael unrhyw wybodaeth. Syndod mawr oedd iddo felly weld yr 'hen Forgan' yng Nghaerffili.

Teithiodd Mr. Jones i'r De ar gyfer sioe adar lle yr oedd i feirniadu. Yn ôl ei arfer aeth i'r capel fore Sul. Crwydrodd ef a Mrs. Jones rai milltiroedd i chwilota am gapel Cymraeg yn y bore, a chlywed fod oedfa ddwy-ieithog, o leiaf, ym Methel, Heol Nantgarw, Caerffili yn yr hwyr. Aethant yno ac er nad oedd yn sicr

'roedd W.O. yn amau o'r cychwyn mai 'Morgan' oedd yn sefyll o'i flaen yn y pulpud. Pan soniwyd yn y bregeth am amser rhyfel 'roedd W.O. yn bendant.

Tynnodd ei sbectol ac adnabu'r Parch T.J. Morgan sydd bellach yn byw yn Ystrad Mynach. Wedi'r gwasanaeth cawsant sgwrs hwyliog am yr hen ddyddiau. Wedi dod adref, cysylltodd W.O. â'r Parch Elwyn Hughes, Trawsfynydd, un arall o'r hen griw oedd yn falch o glywed am hynt a helynt yr 'hen Forgan'....."

Dyna'r stori sy'n portreadu'r ddihareb 'Cynt y cwrdd dau ddyn na dau fynydd' i mi y dyddiau hyn.

APÊL

Fel y mae llawer ohonoch yn gwybod, mae gan y golofn hon chwaer fawr o golofn yn Y 'Rhydne Valley Express', papur wythnosol sy'n perthyn i'r Celtic Press ym Merthyr Tudful. Dr. Gareth Roberts sydd wedi gofalu amdani o'r dechrau ac 'rydym yn ddiolchgar iddo am hynny. Bellach, oherwydd pwysau gwaith ac ati mae ef eisiau cael ei ryddhau o fod yn gyfrifol amdani. Mi fuasai wrth ei fodd yn clywed oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb mewn sgwennu colofn wythnosol. Ei gyfeiriad ydy: 7 Brodeg, Pentyrch, Caerdydd. (Ffôn: Pentyrch 891395). Mae'n bwysig ein bod yn cadw'r golofn yn fyw.

Dafydd Islwyn

Welsh street names ruled out

ENGLISH-ONLY street names will be used on a new housing development in Cardiff after a campaign by a local councillor to get the proposed Welsh names scrapped.

By Michael Thomas

COUN. Doug Pepler—born and bred in Cardiff—said the use of Welsh names in an English-speaking city was "ludicrous." It could even result in loss of life," he said.

"People in Cardiff speak English and anyone trying to contact the emergency services in a hurry, particularly if they were upset, could have trouble explaining themselves," he said. "It would mean delay and could make the difference between life and death."

Difficulties

So the city council have decided, following Coun. Pepler's move, to use English names on the private Danescourt development off Llantrisant Road on the edge of the city.

Instead of Heol Urban, the main road through the estate will be called Danescourt Way. Caldey Island Court will replace the proposed Cwrt Ynys Byr and instead of Cwrt Ynys Gybi

it will be Holy Island Court, while Bardsey Island Court will be on the nameplate instead of Cwrt Ynys Enlli. The decision has been taken although Welsh names were backed by Llandaff Conservation Society, local historians and the Welsh Language Society.

Coun. Pepler said his experience of 15 years in the city fire service had proved "the difficulties people had with Welsh street names."

"I am not against the Welsh language or against Welsh street names in less Anglicised areas but they are stupid in cases like this," he said.

He added: "Householders on the new estate will be relieved that they will not have to keep repeating their addresses to tradesmen and delivery vehicles and will be able to have their goods without any trouble."

South Wales Echo 1977

Y POST

PAPUR NEWYDD CYMRAEG PENARTH,
DINAS POWYS A'R CYLCH

ERTHYGLAU* COLOFN Y DYSGWYR*
CYSTADLAETHAU I'R PLANT*
NEWYDDION O GYMDEITHASAU LLEOL*

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cymraeg
Penarth a'r Cylch.

129, Heol Redlands,
PENARTH. De Morgannwg. CF6 1WG.

Un o ysbytyau mwyaf Ewrop yw Ysbyty'r Waun, Caerdydd. Fel llawer sefydliad mawr, gall fod yn lle creulon o unig, yn enwedig os ydych yn teimlo'n sâl, ac yn bell o'ch cartref.

Dydy pawb ddim yn sylweddoli bob amser nad ysbyty ar gyfer cleifion y de-ddwyrain yn unig yw'r Waun. Daw pobl yma o sawl rhan o Gymru am ymgeledd.

Mae llawer o'n dinasyddion yn gwneud llawer i sicrhau bod eu harhosiad yma yn ein plith mor esmwyth ag y gall fod.

Rhaid estyn clod haeddiannol i offeiriadon a gweinidogion y ddinas. Mae'r ysbyty hwn yn rhan o blwyf pob un ohonynt ac maent hefyd wedi trefnu rota, nifer ohonyn nhw, fel y gall aelodau'r eglwysi roi ysgwydd o dan ychydig o'r baich.

Daw llawer ohonoch i glywed am y cleifion trwy gyfeillion; ac rydych yn taro draw i weld y claf.

Tybed a ydych wedi clywed am Radio Morgannwg?

Ceisio Radio Morgannwg ddarparu gwasanaeth radio ar gyfer y cleifion - gwasanaeth sy'n ymestyn o'r Ysbyty Brenhinol i'r Waun, i Rydlafer ac ysbyty'r glöwyr yng Nghaerffili.

Beth yw'r rhaglenni?

Maen nhw'n syml iawn i'w paratoi a'u darlledu. Mae gan Radio Morgannwg sistem drosglwyddo ym mherfedd Ysbyty'r Waun a chyflenwad helaeth o recordiau. Mae gan y rhai digymraeg lu o bobl a ddaw i'r stiwdio yma'n rheolaidd bob dydd o'r wythnos i roi awr o wasanaeth. Dealla'r 'Dinesydd' fod nifer o wirfoddolwyr yn aros eu tro i roi o'u hamser. Ar ôl eistedd wrth y cyfarpar darlledu, mae eu tasg yn syml. Gosod record ar y troellwr, dweud ychydig amdani, a gadael i'r miwsig fynd ar yr awyr i ffonau clust y gwahanol gleifion. Mae nifer hefyd yn dod â phobl i mewn i siarad ac ati.

Mae cleifion yn ffonio i

wneud cais am record ac yn ei chael.

Trwy hyn, try'r ysbytyau yn gymdeithas a gwneir ychydig i leddfu'r munudau unig.

Nawr, gellwch weld beth sy'n dod:

Rai wythnosau'n ôl, enillodd Cymru fuddugoliaeth fawr! Cafwyd SIANEL GYMRAEG YN AWR! Edrychir ymlaen yn awchus at weld oriau o Gymraeg ar ein setiau teledu.

Ond dydy hi ddim mor hawdd ar aden Gymraeg Radio Morgannwg.

Teimla rhai fod yn rhaid i ni wneud ein rhan i ysgwyddo'r baich yma - a chodi tîm o Gymry Cymraeg sy'n barod i roi awr o'u hamser unwaith y mis, fwy neu lai, i helpu gyda'r radio hwn.

Gellir helpu mewn dwy ffordd.

I ddechrau, oes hen recordiau gennych chi? Rhai sydd ddim wedi troelli eu melodïau ers tro byd? Os oes e, fedwrch chi eu sbario?

Yn ail, oes awr sbâr gennych chi. (Fel y dywedodd un wag o'i wely yn y "Royal" yn ddiweddar, 'Mae sawl un gen i!') Os oes e, fyddoch chi'n barod i ymuno â'r tîm?

Am resymau nad oes angen mynd ar eu hôl yma, mae'r drefn Gymraeg yn sigledig ar hyn o bryd, a gellwch anfon eich recordiau neu eich enw i W J Jones 46 Heol Crystalwood. (Ffôn : 756282). Gall ef drefnu i anfon popeth ymlaen i'r bobl briodol.

Bwriad y rhai sy'n trefnu pethau yw adeiladu tîm cryf o'r rhai sy'n barod i estyn help llaw fel na bydd y baich ar neb yn drwm. Ar hyn o bryd, dartledir o ddwy i dair awr yn hwyr ar bnawn Sul a hefyd awr o bump i chwech ar nosau Mercher. Bu bwriad, hefyd, i ddarlledu awr ar nos Iau, ond dibynna hyn ar nifer y rhai a ddaw i'r adwy.

Ar Hydref 26ain, daeth William i lonni aelwyd Mr. Ieuan a 'Mac' Arwel Hughes. Mae William yn frawd i Mari a Gareth.

Cydymdeimlwn â Hywel D. Roberts ar ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei frawd.

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. David Francis ar enedigaeth eu trydydd mab, Tristan.

Llongyfarchiadau i Brian ac Eleri Rogers ar enedigaeth eu mab, Thomas Llywelyn.

Llongyfarchiadau i Juli (Phillips) a Leo Paschalis ar enedigaeth eu merch, Carys Heledd.

Llongyfarchiadau i Catrin a Peter Rowlands ar enedigaeth Osian Llŷr, brawd i Deian Sion.

Llongyfarchiadau a priodas dda i Robin Evans a Heulwen Jarvis. Mae'r ddau yn gweithio i HTV.

Mae Mona Meirion newydd ddychwelyd efo Côr Gyfynus o Batagonia ac fe gollodd ei thelyn am ddeuddydd. Pwy oedd yn gyfrifol? Bandit yr Andes?

Llongyfarchiadau i'r Dr. Eirwyn William, Angueddfa Werin Cymru, ar ennill ei ddoethuriaeth.

Q DUDALEN 11

Modelwyd gwisgoedd ar gyfer morwyn briodas mewn defnydd porffor blodeuog ac roeddent ar y llwyfan yn disgwyl dyfodiad y briodferch. Gwisgodd hithau ffrog gotwm wen hynod o ddeniadol a het ag ymyl llydan a weddai i'r ffrog.

Gall yr ysgol ymfalchïo yn y ffaith mai noson lwyddiannus iawn ydoedd ac er mai disgwyblion yr ysgol oedd yn modelu, cyflwynwyd y sioe mewn ffordd broffesiynol iawn a roddodd bleser i bawb a fu yno.

Sian Holleran.

Goli

Gwahoddwn gyfraniadau oddi wrth ddisgyblion ysgolion Caerdydd a'r Cylch. Beth amdani?

Safonau Uchel

Ddydd Sadwrn, 15fed o Dachwedd, cynhaliwyd Gŵyl Gerdd Dant Genedlaethol Cymru yn Ninbych a chafwyd gŵyl arbennig o dda gyda safonau uchel a chystadlu brwd. Cynrychiolwyd Caerdydd yn ddeheug iawn gan Shan Emlyn fel beirniad a Mona Meirion fel telynores a da yw gallu adrodd i nifer o wobrau ddod i'r cylch.

Fel y gwyddoch, yng Nghaerdydd y cynhelir yr Ŵyl y flwyddyn nesaf - ar y 7fed o Dachwedd - a gobeithiwn ennyn yr un brwdfrydedd a diddordeb ag a gafwyd yn Ninbych eleni. Teithiodd dirprwyaeth o tua deugain o bobl i Ddinbych ddydd Sadwrn i gymryd rhan mewn seremoni fer i wahodd cystadleuwyr a chefnogwyr i Gaerdydd y flwyddyn nesaf. Estynwyd y gwahoddiad yn hwyliog iawn gan Mr. Robin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, a sicrhawyd y gynulleidfa o wres y croeso a fydd yn eu haros yng Nghaerdydd. Cyfansoddwyd y Cywyd Gwahodd gan Mr. Islwyn Jones, Gwenfô, ac fe'i canwyd yn bersain iawn gan Gôr Tannau Taf a hyfforddwyd gan Mrs. Carys Williams.

Llwyddwyd i lunio'r Rhestr Testunau mewn digon o amser i fedru ei werthu yn Ninbych a dyma'r tro cyntaf erioed i'r rhestr fod ar gael flwyddyn gron cyn yr Ŵyl. Fe welch yn y rhestr fod pob gwobr wedi eu rhoi gan gyfeillion o Gaerdydd a'r Cylch ac mae nifer o bobl eraill eisoes wedi cyfrannu at y Gronfa. Ar Hydref 17eg, cawsom gyngerdd arbennig o dda gan blant ysgolion Cymraeg y ddinas i lansio'r apêl a chodwyd pedwar can punt.

Fel y gŵyr rhai ohonoch mae'r Gymdeithas Gerdd Dant yn benthyca telynau i blant Cymru a phob blwyddyn mae'r gofyn yn fwy na'r cyflenwad. Felly, mae'r Gymdeithas yn dibynnu ar elw sylweddol o'r Ŵyl er mwyn gallu prynu rhagor o delynau ac atgyweirio hen rai. Mae Pwyllgor Gwaith Gŵyl Caerdydd wedi gosod nod o saith mil o bunnoedd ac erfyniwn am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

Y CYWYDD GWAHODD

Un gynnes yw'n neges ni -
Dechau o gennad ichi
I ddod draw i roddi tro
Am dylwyth cwmwd Iolo
I bennaf tref y trefydd
I oror deg tref Caerdydd.

Un haelwch fu ein talaith
Hi roes nawdd a gwres i'n hiaith;
A'i nodded estyn heddiw
I Ŵyl lon werinol wiw;
A gâr dant doed i Gaerdydd
Yn hoenus mewn llawenydd.

I bencerdd a phob cerddor
Addo ym ddipligied ddôr
A nodded ddibrin iddynt
Trwy yr Ŵyl o ddönt ar hynt
Yn wresog cânt gan croeso
Hylon brwd yng ngŵyl ein bro.

Dewch mewn hwyl i'n gŵyl i gyd
Gŵyl fydd i hen gelfyddyd;
Yno bydd pob rhyw fwyniant
Yn wych deg i foddio'ch dant
Alaw a dawns a thelyn
A hwyl taer cystadlu tyn.

Neuadd goeth fydd nawdd i gân
Un fawrgoeth, perl gwlad Forgan
Lle ceir y stôr, drysorau
Lluniau hardd i'ch llawenhau,
A lle rhoed i sefyll, rhes
Arwyr ein hen hen hanes.

Ar unwaith, Gymry annwyl,
Dewch i gyd i glydwch gŵyl
Cyn dyfod gwae y gaeaf
Yn fintai hardd i fin Taf
I bennaf tref y trefydd
Yn awr dewch i dref Caerdydd.

Islwyn Jones.

"Roeddwn i mor eceited odd rhaid i fi ga'l deud wrth yr hogia yn yr Eli. "Hogia," me fi un nos Lun pan odd y pyb mor ddistaw â mynwant Nant Gwrtheyrn "dwi 'di bod hefo chi rwan am dros flwyddyn a da chi 'di bod yn uffernol o dda hefo fi a dwi isho ichi fod y cynta i wbod rhwbath pwysig iawn".

"Gwboð be?" medda Dei Shop - bod chdi wedi landio aciwmwletor ar y nags?" Ma betio'n waed Dei Shop.

"Naci, bod o'n mynd o 'ma i uffar a'n gadal ni mewn heddwch", medda Ffrogit sy'n poeni'i enaid y bydd rhaid iddo fo roid gora i fod yn stiwdant flwyddyn nesa a dechra gweithio fatha pawb arall, ac sy wedi chwerwi'n ofnadwy ers pan nath 'i fêts o Lais Ogwan ac Adar Rhianon a rheina 'i ddisyrtio fo a mynd i yfad Brêns i'r Crwys bob gafal.

"Os da chi ddim isho clwad hogia, by-gra chi!" me fi a dechra sorri'n bwt.

"Stopwch bygutan bois," medda Stan 'Crossroads' ('cega' odd o'n feddwl). "Dere'r mwlsyn diawl. Gwed be sta ti".

"Y gwir ydi, hogia, na fydda i ddim yn yfad hefo chi bob nos o hyn ymlaen".

"Iesu Gwyn!" medda Dei Shop. "Mae Ebeneser wedi ca'l eu dwylo arno fo!"

Mi stopiodd Connolly yfad 'i Strongbow am eiliad a sbîo arna fi o'r "Foggy Dew" fatha tyswn i'n myll.

"Dim rhagor o chware brag?" medda Wynho.

"Dim Papagîos?" medda Stan.

"Dim mwy cwrw?" medda Harvey'r Llydawr lloerig - ddim yn gwybod yn iawn be oedd yn digwydd.

"Dim ots gin i be ddeudwch chi", me fi, "ma rhwbath'di digwydd ifi sy'n mynd i newid yn holl fywyd i. Dwi 'di syrthio mewn cariad hefo'r fodan 'ma, so ddêr".

Dechreuodd y Ffrogit 'na biffian chwerthin, tagodd Dei Shop ar y cwrw Ambyr rhad 'na ma o'n yfed ac odd chwerthin Connolly'n diasbedain drwy'r Eli wrth fownsian o wal i wal. Ond odd ddiawl ots gin i amdanyu nhw. 'Ro'n i'n teimlo'n ddyu beionig ers ifi gwarfod Belinda. 'Ro'n i'n llusgo'r Acsminsters trwm o gwmpas Howells fel tysa nhw'n fagia o blu.

"Ddim Freeda Hwran, y nyrs?"

"Naci. Thwtish i mo honno wedyn".

"Dere mlan te", medda Stan yn bown-jian ar flaen 'i sêt fel tysa rhyw lyngyr yn 'i ddu o, "pwy yw hi?"

"Dydd Gŵyl Dewi", ddechreuish ar yn hanas, "o'n i'n bryshio nôl o'r Albert ansar cinio at y blydi carpedi 'na pan welish i Penniman a Dai Corduroy ar stryd. "Day-off' hogia?" me fi.

"Hanner diwrnod", medda Dai sydd wedi dysgu Cymraeg yn well na lot o Gofis ia

"Mynd i'r Clwb i ddathlu", medda Man Mownten Penniman. (Pan ma fo wedi gwyll-ti) da chi'n falch bod chi'n fêts hefo fo). "Moyn dod?".

"Fiw mi", me fi, "laddith y bos fi. Dwi ffwr rhy amal o beth cythral fel ma hi". Ond yn sydyn dyma rhyw ddiawl bach tu fewn i fi'n rhwla'n yn nhemtio fi. Os odd rhain yn ca'l "day-off" i ddath-lu Dewi Sant, pam na chawn i? "Di o'n lle da, hogia?"

"Le Mans - garanti am bnawn diddorol" medda Dai Corduroy.

"Ffonia i'r gwaith i ddeud fod yr hen bwl wedi dod drosta i".

Yn gwaelod City Road mae'r Le Mans. O'n i 'rioed wedi sylwi arno fo o'r blaen wrth fynd yn y bys i'r dre. Talu tua coron wrth drws ochor ia, a da chi mewn. Odd hi'n hannar tywyll yno hefo goleuada ffloreid fatha sy'n y Casinos lond lle. Blydi niwsans ydyn nhw hefyd-yn gneud i'r ddau ddaint gosod sydd gin i ar flaen yng ngheg edrach fel tasan nhw ddim yna o gwbl. Dim help o gwbl pan da chi'n trio pigo fodins.

"Neith hi sesh go iawn pnawn ma, hogia?" medda fi a swigo 'mheint o Meild lawr at 'i hannar mewn un gegiad. Ond chesh i ddim deud mwy nad odd 'na ryw fiwsig fatha miwsig Arabs yn llen-wi'r lle ac yn boddi siarad pawb. Aeth y gola i lawr a dath y sbotleit ar ryw fodan ym mhendraw'r stafall wedi'i gwisgo fatha rhwbath yn strêr o'r harfm.

"Arglwydd, Penniman!" me fi, "o'n i ddim yn gwboð ma lle fel hyn odd o!"

Gwenodd Penniman wên anfarth a rhoi pwniad i Dai Corduroy a winc arna fi. O'n i'n wastad wedi bwriadu mynd i weld un o'r rhain i'r dent yn Ffair Borth ond o'n i wedi ca'l gormod o lond bol i symud o'r pyb bob tro esh i.


Mi chwifiodd y fodan 'ma ddwy bluan ostrits fawr drwy'r awyr o'i blaen wrth symud i fyny ac i lawr i clwb. O dipyn i beth mi dynnodd bob cerpyn odd amdan-i a finna fannu'n llyncu 'mhwyri a gla-foerio bob yn ail. Fuo jest imi ffeintio pan symudodd hi o fewn modfeddi imi yn gwingo'n y modd mwy a i'r miwsig. Mi 'steddodd hi ar lin Dai Corduroy, chwara hefo'i fwstach Pausho fo a rhoid 'i genhinen pedr o ynna i ddim deud lle. Diflannodd hi i'r twllwoh yng nghornel y clwb ar ôl rhyw bum munud o giamocs fel hyn.

"Ffiw hogia!" me fi pan ddoth y gola'n ôl "pam na fysa chi'n warnio fê? O'n i ddim yn barod i weld fodan handi felna yn yn dangos 'i chamagara i gyd".

"Duw", medda Penniman, "mae Dai a fi wedi gweld "Naughty Nora" ddwsine o weithie, ondofe Dai?".

(parhâd) TUDALEN 19

CEFNOGWCH
EIN HYSBYSEBWYR



Ar Draws

1. O'i gynhyrfu, mae'r dyn da wedi ar-ddangos copi o'r gwreiddiol (11)
9. Gwelodd Meinir a'i dwy chwaer liw gwyrddlas (5)
10. Nid oedd Leo N. Abse B.D. yno. Dyma enwi'i gyflwr (10)
11. Clir a phlaen (5).
12. Lletchwith ac anodd i'w drafod (7)
14. "Canys o ... y gwyddom, ac o ... yr ydym yn proffwydo". (3)
15. Brwnt yw gair y De! (4)
16. Sut y bydd pedleriaid yn gwerthu (1,2,1,2)
17. "Llew o beth yw tad llo bach" (4)
21. Dioddefaint y Canoloesoedd (4)
22. Niwl! ac o'i darth bydd enllibio (6)
23. Lle, cam a geiriau, ac ambell i ben hefyd (4)
26. Cyfarwyddwr amser a chyfeiriad (3)
27. Un o adar y nefoedd (7)
29. Caeir i mewn yr erwau hyn (5)
30. Un felly oedd Cromwel, yn ôl ei orchymyn i'w arlunydd (10)
31. A Wyr o sut mae gwyntyllu? (5)
32. Egin llawn ddon' o'r gerddi ffurwythlon hyn. (11)

Datrysiaid Croesair Rhif 8

- Ar Draws: 1. GODRAD; 4. CRANC-OD; 9. ACHLY:UROL (o'r Uchal Lys); 10. GO-M-EDD; 11. (Hog)AN-LWC(us); 12. YSGLEPRIO (i Gôr Selyf); 13. ANGHYWR (A yw'r ing + h); 15. SYMUDO; 17. DEUDEG (chwe llythyren); 19. P-ARLYSU, (ar y Sul); 22. GERWINDER (newid ger + hanner RR); 24. OPERA; 26. ALARCH; 27. DIDEIMLAD (dail Medi + 0); 28. LLUDDDIG (ddugell di); 29. ANSAW-DD;

- I Lawr: 1. GWAHANA; 2. DI-LOL (Doli + L); 3. ANSICRWYDD (criw na sydd); 4. (wan)C-I-LWGU-S(awl un); 5. ARGAE; 6. CYMERADWY (dwy acer ŷm); 7. DYDDIOL; 8. BRWYDR; 14. HAEARNAIDD; 16. MA-CH-OGTON; 18. GOD-I-BOG; 19. PAROD-I(awn); 20. UNAWDYDD; 21. A GWAELL; 23. IECHYD (chei dy); 25. ELLIA.

Mae Canolfan Dysgu cerdd-oriaeth ar ddechrau yn Rhiwbeina. Yn arbenigo mewn rholiadau, piano, llais ac ymarferiadau Elfennau Cerdd. Beti Cook, IRLAM, ATCL. Ffoniwch Caerdydd 62006

TEIFYDD profiadol, yn barod i ymgymryd â gwaith preifat yn Gymraeg neu yn Saesneg. Telerau arferol. Cesglir y gwaith a'i ddychwelyd yn ddiymdroi. Caerdydd 592653

I Lawr

2. Dies Irae, sef Dydd(1,4)
3. Buddiol yw rhoi trefn ar Dela a Doli (9)
4. Un sy'n rhoi croes i lawr (6)
5. Daw hwn i'r golwg "Pan ddêl Mai a'i lifrai las". (5,3)
6. Cyflwr olaf Thomas More a John Penry yn dangos eu pwrpas a'u hancan (5)
7. Coesau yr anafus? (6)
8. Ar Dad a Griff a thithau, gyfaill, y mae'r cyfrifoldeb am ddwyn allan gopi newydd o hen lyfr... (11)
12.a dyma sylwadau y darllenwyr profesiynol arno (11)
13. Sbrî'r hen bregethwr? a godir wrth dynnu ar "raffau'r addewidion"? (4)
18. Clymer yr anifail yn saff rhag iddo grwydro (3,6)
19. Cyfeiriad Dai ei fys yn gyffrous pan ofynnai yn daer (8)
20. "Ac ar y Sul, yng nghwrdd y Saint
Mae Sian a minnau'n(4)
24. A ellid cyfnewid hwn â 27 ar draws? (6)
25. Nid cell meudwy yw'r lle gwag hwn, ond daw i'r golwg pan fydd y meudwy yn cymryd pen a chynffon cell (6)
26. Cyllell o odre'r Pyreniaid a ddefnyddir fel picell (5)
28. ".....lan, diogel ei pherchen" (5)

"P*A*T*R*I*O*T*I*C
O! Gymru! Gymru! Rwy'n dy garu
(O fewn ffiniau cyfansoddiadol felly)
Aeth neb 'rloed i unan drwy lawso trais
("Gelyn i Gymru", gwaeth na'r Sais)
Ar wahân i Fouere, De Valera, a'r Bassg
(Ond mae 'u coffi nhw mewn ewahanol fflaseg)
Anghydfurfiwr didrais fu'r Gyro erloed
(O leiaf pan briflodd a dod at ei goed)
Amhosib i'r Gyro yw ymladd dros dud
(Ai fo fydd y caethwas ola'n y byd?)
Pleidiwr

Mae mis arall o beldroedio wedi mynd heibio yn hanes Clwb Cymric a phum gêm wedi eu chwarae gyda chymysgedd o ganlyniadau.

Dechreuwyd mis Hydref gyda gêm oddi cartref yn erbyn Tongwynlais, tîm wedi disgyn o'r adran gyntaf y tymor diwethaf a thîm cryf, cadarn a galluog. Cafwyd chwarae arbennig o dda gan y ddwy ochr. Cyfartal 1-1 oedd y sgôr a'r meddyg bach, Elwyn, yn rhwydo i'r Cymric, a Thongwynlais yn rhwydo yn hwyr yn y gêm yn syth o gic rydd a aeth heibio Dewi yn y gôl fel 'Concorde'.

Ar Hydref llog, gêm oddi cartref yn erbyn Grange Albion. Gêm wael y dylai Clwb Cymric fod wedi ei hennill yn hawdd ond rhannu'r pwyntiau fu'r hanes eto - 2-2 y tro yma a Wyn a Rhodri yn sgorio. Braf oedd croesawu yr henwr Gareth Huws yn ôl wedi colli wythnosau oherwydd anaf i'w droed (wedi i'w wraig roi cic iddo pan ddaeth adref yn hwyr un noson!). Y Sadwrn canlynol, gêm yn erbyn Canton United. Buddugoliaeth hawdd y tro yma o 3-0 ond buddugoliaeth a ddylasai fod yn llawer iawn mwy o gysidiro safon wael y tim arall. Y sgorwyr oedd Martin Hopwood, Wyn, ac Elwyn (CYW-gyfrifydd Rhoslan) a darodd ergyd o ddeg llath ar hugain i gefn y rhwyd.

Sadwrn i'w anghofio oedd Hydref 25 - gêm oddi cartref yn erbyn Rhymni, tîm ar ei ffordd i safon uwch, a chwalwyd gobeithion Clwb Cymric yn yfflon gan chwarae celfydd y tîm hwn. Cweir iawn felly o 8-1, a Wyn yn sgorio'r unig gôl gan daro'r bêl i'r rhwyd â'i ben o bum llath. Hon, gyda llaw, oedd gêm cyntaf Cen (cartŵn) i'r tîm cyntaf eleni - a'r olaf, tybed?!

Gêm dra gwahanol a gafwyd ar Dachwedd laf yr un diwrnod y chwaraeodd Tîm Cenedlaethol Rygbi Cymru yn erbyn y Crysau Duon. Yn wir, aeth Clwb Cymric gam ymhellach drwy chwarae yn erbyn tîm 'all-black' arall sef Sevenoaks. Tîm o Rastafarians oeddent a haul hydrefol yn disgleirio ar eu dannedd ifori wrth iddynt gega fel clagwydd â'i

Llongyfarchiadau i Barti Cerdd Dant Ysgol Gyfun Llanhari ar eu llwyddiant yn yr Wyl Cerdd Dant yn Ninbych. Hefyd, llongyfarchiadau i Menna Thomas am ennill y gystadleuaeth Alawon Gwerin Agored ac i Iona Jones am ennill yr ail wobwr yn y gystadleuaeth Cerdd Dant.

gilydd drwy gydol y gêm. Gêm syrcaes efallai fyddai'r disgrifiad gorau - a'r canlyniad oedd 5 gôl yr un. Y sgorwyr oedd Wyn (eto), Pwt (2), Rheon, a Gareth Huws yn sgorio ei gôl gyntaf i'r Clwb ers blynnydoedd.

Rhaid cofnodi hefyd mai dyma'r mis gorau i'r ail dîm eleni a chafwyd buddugoliaeth gynta'r tymor ynghyd ag un gêm gyfartal. Dycnwch a dyfalbarhad yn trechu yn y pen draw. Gyda llaw, croeso yn ôl i'r myfyrwyr i'r gorlan unwaith yn fthagor.

Ymlaen felly i'r misoedd nesa - mae lle i wella a lle i chwaraewyr newydd. Cofiwch am yr ymarfer bob nos Fercher, 6.30 p.m. tan 8 p.m. yn y gampfa yn ysgol Cantonian, y Tyllgoed.

O.N. Llongyfarchiadau i Wyn a Sian ar enedigaeth merch fach, Sara.

Rhodri Gwyn Jones, Pentyrch.

CHRISTOBEL PADWICK

Mae'n chwith gan y 'Dinesydd' gofnodi marwolaeth Miss Christobel Padwick. Fe'i ganwyd ar ynys Thorney yn moryd afon Tafwys a threuliodd lawer o'i gyfifa gyda Dr. Barnardo, yn ymgeleddu plant amddifad.

Fel llawer o Saeson a ddaeth i Gaerdydd i weithio, penderfynodd ddysgu'r iaith a'r gŵr a'i calonogodd yn y gwaith oedd Mr. Moelwyn Preece, Pennaeth Adran Gymraeg Ysgol Uwchradd Llanishen. Datblygodd ei Chymraeg mor dda nes i'w hathro ei hannog i ysgrifennu ei hunangofiant, a dyna a wnaeth. Enw'r llyfr yw, 'Fe'm ganwyd ar ynys'. Fe'i cyhoeddwyd rai blynnydoedd yn ôl bellach, ond mae'n werth ei ddarllen gan fod profiadau Ms Padwick wedi bod yn amrywiol a diddorol.

Mabwysiadodd Gaerdydd ac 'roedd wrth ei bodd yn ein plith - gan siarad Cymraeg bob cyfle a gâi.

Ionawr 15: Gerry MacLochlainn - 'Rhyfel yn Iwerddon' (yn Saesneg). Tafarn y FOUR ELMS, Elm St., Y Rhâth. 8.00 p.m.

Ionawr 25: Gorymdaith Dydd Sul Gwaedlyd Sinn Fein yng Nghaerdydd. Mwy o fanylion i ddod.

Tra odd yr hogia'n slochian yfad drwy'r pnawn yn aros am yr ail sioc, o'n i'n sylwi ar y fodan fach ddel ma'n ista'n ddistaw fatha llygodan ar draws ffordd inni - neb hefo hi a neb yn deud gair wrthi: 'Mhen hir a hwyr cesh I ddigon o blwc cwrr i fynd draw ati a deud "sumai". Odd gino hi ddim llawer o fynadd siarad i ddechra ond pan ddechreuish i ar yn jôcs a'n fflyrtio, mi gnesodd hi drwyddi a buan 'roeddian ni'n fêts grêt. Belinda odd ei henw hi a fuo bron imi gael sioc ar yn nhin pan ddeudodd hi ma hi odd mêt gora "Naughty Nora" - yn byw hefo hi yn Grangetown ac yn mynd hefo hi i bob clwb i wneud yn siwr ei bod hi'n O.K.

"Mac Nora'n hen hogan grêt", medda hi, "a dwi isho gneud yn siwr nad y di hen ddyinion bach budur a hen sglyfaethod mawr bachog yn mynd i'r afael hefo hi. Dydan ni ddim yn genod felna".

"Nadach, siwr", me fi, "ond ym wyt titha'n gneud y job ma hefyd, del-tynnu dy ddillad a ballu?"

"Gwaetha'r modd", medda Belinda, "does gin i ddim tsans c'al job. Felly dwi'n i helpu hi, dydw".

"Hei, fyswn i'n deud fod gin ti ffigyr neis iawn", medda finna'n ffresh reit yn yng nghwrrw.

"O! Gronwy ti'n deud petha neis", medda hitha a 'mhwnio i hefo'i phen-elin yn yn ochor.

Daeth diwadd y pnawn ac 'rodd hi'n piso bwrw tu allan. Mi sefodd y tri hog yn nrws y clwb yn disgwl iddi 'rafu'. Pwy ddoth allan ar yn hola ni ond Nora a Belinda yn 'u cotia P.V.C.

"Ble chi'n mynd nawrte?" medda Penniman.

"Adra", medda Nora, "lle ti'n feddwl?"

"Mae hi'n stîdo bwrw" medda fi wedyn. "Ma'r fflat rownd y gongol".

Edrychodd y ddwy ar ei gilydd, giglo a deud "iawn". Gafaelodd Belinda yn y mraich i ac aeth Nora rhwng Dai a Penniman. Cerddodd y pump othonon hi i fyny City Road yn socian tuag adre....

Ar y gair pwy grashiodd drwy ddrws yr Eli ar draws y stori ond Dai a Penniman eu hunain.

"Gron bach! 'Smo ni wedi gweld ti 'ddiar Dydd Gŵyl Dewi w. Bois, odd e'n smwtsio da'r striper hyn lan City Road. O'n nhw'n graplo erbyn inni gyrraedd lolfa tŷ ni a Duw a Wyr beth o'n nhw'n wneud pan ddisapiron' nhw nes mlân i rŵm Al".

"Taw, y cedor gwirion" medda fi.

"Ma'r hogia 'di clwad y cwblw. 'Does gin i mond diolch i chdi co am yn nenu o Howells y pnawn hwnnw. Ffrogit 'sgin i mond diolch yn fawr i chditha am adal i fi aros hefo chi ers pan gesh i'r bŵt gan Mrs. Wilcox. Ond dwi' mynd i fyw hefo Belinda yn Grangetown wsnos nesa".

Arwyddair Neuadd Merched Aberdâr yw:
GWELL ANGAU NA CHYWILYDD!

SIOP JEN

91, Stryd Pontcanna,

CAERDYDD

FFÔN 42933

GWLÂN, DILLAD

**A NWDYDDAU
PREN**



NEGES BWYSIG

1. CYSTADLEUAETH GWOBROG DANIEL OWEN - Y NOFEL

Gwobr: £500

(yn rhoddedig gan HTV Cymru)

Beirniaid: Beth Hughes, Selyf Roberts ac Emyr Humphries

Dyddiad cau: Ebrill 1af, 1981.

Gofynnir i bawb sydd am gystadlu anfon y gwaith i lawr ynghynt ar mwyn eu hanfon ymlaen i'r beirniaid. Gobaithir cyhoeddi'r nofel fuddugol mewn pryd i ymddangos yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

2. Y FEDAL RYDDIAITH 8-10 O YSGRIFAU CREADIGOL

Beirniaid: John Rowlands, Eira Lewis Roberts ac R. Tudur Jones

Dyddiad cau: Ionawr 31, 1981

Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru

Maldwyn a'i Chyffiniau

1-8 AWST 1981

Osian Wyr Jones, Trefnydd,
Swyddfa'r Eisteddfod, Heol y Doli,
Machynlleth, Powys SY20 1BR
Teleffôn: 10654-2801

Ai chi sy'n darllen

CURIAD ?

PAPUR BRO CYMRU GYFAN



Ar werth yn eich siop bapur —
holwch amdano

30c

GWESTY LLETY CYMRO

143 HEOL YR EGLWYS
GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST
BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL

GWERSI KARATE
I'R CYMRO NEU'R
CYMRAS.

CYBLLTUCH A MAIR ROSSER,
CAERDYDD 594992.